Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cymorth cyfreithiol sifil: Tuag at ddyfodol cynaliadwy

## Cynigion i gynyddu ffioedd Tai a Mewnfudo ac ystyriaeth i ddiwygio contractau

Cyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr 2025. Cafodd ei dynnu'n ôl a'i ailgyflwyno ym mis Chwefror 2025.

CP 1268

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cymorth cyfreithiol sifil: Tuag at ddyfodol cynaliadwy

## Cynigion i gynyddu ffioedd Tai a Mewnfudo ac ystyriaeth i ddiwygio contractau

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Cyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr 2025. Cafodd ei dynnu'n ôl a'i ailgyflwyno ym mis Chwefror 2025.

CP 1268

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom yn civillegalaidreform@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5434-0

E03292092 Cyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr 2025. Cafodd ei dynnu'n ôl a'i ailgyflwyno ym mis Chwefror 2025.

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys lleiafswm o 40% o ffibrau wedi'u hailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Mae'r ymgynghoriad yn agored i'r cyhoedd, ond mae wedi'i anelu'n bennaf at weithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth, a sefydliadau eraill â diddordeb mewn cymorth cyfreithiol sifil. |
| **Hyd:** | O 24/01/25 hyd 21/03/25 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat amgen) at:** | Civil Legal Aid Reform Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: civillegalaidreform@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Gallwch ymateb ar-lein yn: https://www.gov.uk/government/consultations/civil-legal-aid-towards-a-sustainable-future<br><br>Neu, gallwch anfon eich ymateb erbyn 21/03/25 at:<br><br>Civil Legal Aid Reform Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: civillegalaidreform@justice.gov.uk |
| **Papur ymateb:** | Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2025 yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys

**Rhagair** **3**

**Crynodeb gweithredol** **5**

**Cyflwyniad** **7**

Trosolwg o'r system cyngor cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr 7

Gwella'r system cymorth cyfreithiol sifil 8

**Pennod Un: Cynyddu ffioedd cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer gwaith Tai a Mewnfudo** **10**

Cefndir 10

Ffioedd Tai 11

Ffioedd Mewnfudo 13

Cynigion 15

**Pennod Dau: Gwella'r profiad o brosesau cymorth cyfreithiol** **25**

Gweithio o bell 25

Gofynion swyddfeydd 28

Camau eraill rydym yn eu cymryd 30

**Pennod Tri: Casgliadau a'r camau nesaf** **31**

**Holiadur** **32**

**Atodiad A – Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i benderfynu ar y lefelau ffioedd arfaethedig a'r cynnydd o 10%** **35**

Crynodeb o'r cynnig 35

Cyd-destun a meincnodi 35

Lefelau ffioedd arfaethedig 36

Cyfyngiadau 37

**Atodiad B – Cynyddu ffioedd i ffioedd penodol** **39**

Ffioedd Gwaith Rheoledig Mewnfudo a Lloches 39

Ffioedd Gwaith Rheoledig Tai a Dyledion 43
Ffioedd Gwaith Trwyddedig Mewnfudo a Thai a Dyledion 44
Cyfraddau Atodlen 2 46

**Amdanoch chi 48**

**Sut i ymateb 49**

Cwynion neu sylwadau 49
Copïau ychwanegol 49
Cyhoeddi ymateb 49
Grwpiau cynrychioliadol 49
Cyfrinachedd 50

**Egwyddorion yr ymgynghoriad 51**

# Rhagair

Cyngor cyfreithiol yw conglfaen ein system gyfiawnder. Mae'n sail i reolaeth y gyfraith yn y wlad, drwy helpu i sicrhau bod pawb, gan gynnwys y tlotaf a'r mwyaf agored i niwed, yn cael mynediad at gyfiawnder ac yn gallu gorfodi eu hawliau cyfreithiol.

Ond pan ddaeth y Llywodraeth hon i rym, etifeddwyd system cymorth cyfreithiol a oedd yn gwegian gan bwysau blynyddoedd o esgeulustod.

Mae'r heriau sy'n wynebu'r system gyfiawnder – a'n system cymorth cyfreithiol yn benodol, yn rhai difrifol. Yn ystod y misoedd diwethaf, ac ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau o'r Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil. Roedd yr adroddiadau hyn yn edrych ar y system cymorth cyfreithiol yn ei chyfanrwydd, gan ystyried sut mae'n gweithio i'r rhai sy'n dibynnu arni, a'r rhai sy'n gweithio ynddi. Mae'r adroddiadau hyn yn bendant ynglŷn â'r problemau sy'n rhaid inni eu datrys.

Rydym yn benderfynol o adfer y sector allweddol hwn, gan ailadeiladu system cymorth cyfreithiol sy'n gynaliadwy, effeithiol ac effeithlon, ac sy'n helpu pobl i roi sylw i'w problemau cyfreithiol mor gyflym a chynnar â phosibl. Rydym am weld system sy'n galluogi ein proffesiwn cymorth cyfreithiol rhagorol i wneud yr hyn mae'n ei wneud orau – darparu cymorth a chyngor o safon uchel i'r bobl sydd â'r angen mwyaf amdano.

I'r perwyl hwnnw, rydym yn cynnig cynnydd sylweddol yn y cyfraddau a delir am waith cymorth cyfreithiol Tai a Dyledion (Tai) a Mewnfudo a Lloches (Mewnfudo). Bydd pob math o achosion Tai neu Fewnfudo'n gweld cynnydd mewn ffioedd a bydd cyfanswm y gwariant yn y categorïau hyn yn cynyddu 24% a 30%, yn y drefn honno. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £20 miliwn y flwyddyn pan fydd wedi'i weithredu'n llawn, a bydd yn arwain at sector cymorth cyfreithiol mwy cynaliadwy yn y meysydd hyn, gan alluogi mynediad prydlon at gyngor o safon i'r sawl sydd ei angen.

Bydd ein cynigion yn cynyddu'r gyfradd fesul awr a delir am waith cymorth cyfreithiol i isafswm o £65.35/£69.30 yr awr (y tu allan i Lundain/Llundain) a bydd yn golygu cynnydd cymesurol mewn ffioedd sefydlog. Bydd hyn yn golygu y bydd gwasanaethau cyfreithiol o safon uchel ar gael ar gyfer gwaith tai a mewnfudo, fel y bydd gan bobl fwy agored i niwed sydd mewn perygl o golli eu cartref, ceiswyr lloches, a rhai sy'n delio â materion mewnfudo gan gynnwys dioddefwyr caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl, a cham-drin domestig, fynediad at gyngor cyfreithiol pan fydd ei angen.


Ac, yn allweddol, bydd yn hybu marchnad cymorth cyfreithiol fwy cynaliadwy yn y tymor hir, drwy dalu cyfradd sy'n galluogi darparwyr i ddenu a chadw'r gweithwyr cymorth cyfreithiol gorau a mwyaf disglair.

Ochr yn ochr â hyn, rydym am ddeall yn well beth fydd effaith y newidiadau posibl i ofynion contractiol cymorth cyfreithiol sifil ar weithio o bell ac ar swyddfeydd parhaol. Rydym am ystyried sut y gall darparwyr gael eu grymuso'n well i ddatblygu darpariaeth fwy arloesol a hyblyg sydd wedi'i seilio ar anghenion eu cleientiaid a beth fydd y newidiadau posibl yn ei olygu i'r farchnad cymorth cyfreithiol ac i ddarparwyr.

Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn gwneud gwahaniaeth i rai mewn angen, o rywun sy'n wynebu cael eu troi allan o'u cartref i blentyn digwmni sy'n ceisio lloches.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio yn y sector cymorth cyfreithiol, ac sydd wedi cyfrannu at yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil. Mae gennych rôl hanfodol yn y system gyfiawnder, a chymdeithas yn gyffredinol. Roedd eich cyfraniadau at yr Adolygiadau'n amhrisiadwy – hebddynt, ni fyddai wedi digwydd.

Cam cyntaf yn unig yw hwn yn yr hyn a fydd yn agenda llawer ehangach i drawsnewid y system gyfiawnder, a bydd gennym ragor i'w ddweud am gyfeiriad y gwaith hwn yn ystod y misoedd nesaf.



**Sarah Sackman KC AS**

Y Gweinidog dros y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol

# Crynodeb gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried cynyddu ffioedd cymorth cyfreithiol ar gyfer gwaith Tai a Dyledion (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'Tai'), a gwaith Mewnfudo a Lloches (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'Mewnfudo'). Rydym hefyd yn ceisio rhagor o dystiolaeth ar newidiadau posibl i rai agweddau ar ofynion contractiol. Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf yn ein hymateb i'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil (RoCLA).

Dangosodd y dystiolaeth o RoCLA fod y sectorau Tai a Mewnfudo'n wynebu heriau difrifol o ran darparu eu gwasanaeth a'r galw uchel oherwydd lefelau'r ffioedd presennol. Byddwn yn parhau i ystyried y ffioedd a delir yng nghategorïau eraill cymorth cyfreithiol sifil, gan gynnwys yn ystod yr Adolygiad o Wariant nesaf yn ystod Gwanwyn 2025.

Mae'r cynigion i gynyddu'r ffioedd yn yr ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth o RoCLA gydag ystyriaeth benodol a dadansoddiad o'r ymchwil i gynaliadwyedd a gynhaliwyd gan Frontier Economics ar ran Cymdeithas y Cyfreithwyr. Roedd pwyslais y gwaith ymchwil hwn ar ddarparwyr Tai a Theulu. Wrth ddefnyddio'r gwaith hwn i ddatblygu ein cynigion ni, rydym wedi cymharu costau darparu cymorth cyfreithiol yn erbyn gwahanol gyfraddau, gan gynnwys y rhai a delir yn awr. Mae'r tybiaethau a wnaed gennym sy'n sail i'r opsiynau hyn wedi'u rhoi ar brawf yn yr ymgynghoriad, a gall y polisïau gael eu mireinio o ganlyniad. Rydym wedi cymharu ein cyfradd isaf fesul awr arfaethedig â thystiolaeth a gafwyd gan ddarparwyr Mewnfudo ar broffidioldeb i helpu i sicrhau y byddai ein cynigion yn gwneud y gwaith hwnnw'n fwy atyniadol i ddarparwyr cymorth cyfreithiol.

Bydd pob math o achosion, os ydynt yn ymwneud â Thai neu Fewnfudo'n gweld cynnydd mewn ffioedd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig cynyddu'r holl gyfraddau cymorth cyfreithiol ar gyfer gwaith Tai a mewnfudo i gyfradd o isafswm o £65.35/£69.30 (y tu allan i Lundain/Llundain). Lle na fyddai'r gyfradd isaf yn golygu cynnydd sydd o leiaf 10% mewn cyfradd benodedig, bydd y gyfradd yn cael ei chodi 10 %. Bydd ffioedd sefydlog a throthwyon ffi dianc yn cael eu cynyddu'n ôl yr un ganran â'r gyfradd fesul awr sylfaenol ar gyfer y gwaith hwnnw. Bydd gwaith rheoledig,[1] sydd ar hyn o bryd y pellaf oddi wrth y gyfradd isaf hon, yn gweld cynnydd uwch na Gwaith Trwyddedig.[2] Mae hyn yn rhannol i gydnabod, fel gwaith Trwyddedig, y gall Gwaith Rheoledig gynnwys materion cymhleth

1 Gwaith Rheoledig yw cyngor a chymorth cychwynnol a chynrychiolaeth yn y tribiwnlysoedd iechyd meddwl a mewnfudo lle mae penderfyniadau ar gymhwystra i gael cymorth cyfreithiol yn cael eu dirprwyo i ddarparwyr

2 Mewn Gwaith Trwyddedig, mae'n debygol y bydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol gerbron llys a bydd y cyfrifoldeb am benderfynu ar gymhwystra fel arfer yng ngofal yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA).

sydd angen lefel uchel o fewnbwn gan ddarparwyr. Rydym yn gobeithio y bydd y cynigion hyn yn cael gwared ar yr hyn sy'n atal darparwyr rhag gwneud Gwaith Rheoledig, gan alluogi'r cyhoedd i ddatrys eu problemau cyfreithiol yn gynharach.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn gofyn am farn i helpu i oleuo meysydd yr ydym yn eu hystyried i wella profiad prosesau cymorth cyfreithiol, ac i rymuso a rhoi mwy o ymreolaeth i ddarparwyr i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Mae pwyslais penodol yr ymgynghoriad hwn ar ofynion contractiol cymorth cyfreithiol safonol o ran cyngor o bell a swyddfeydd, sydd wedi'i seiliedig ar yr egwyddorion y bydd angen inni sicrhau bod gan gleientiaid fynediad at gyngor cyfreithiol sy'n effeithiol ac o safon uchel; ond gan gydnabod hefyd y rôl allweddol sydd gan ddarparwyr drwy rannu eu harbenigedd, eu safonau proffesiynol a'u profiad o weithio â chleientiaid i benderfynu ar y ffordd orau i ddiwallu anghenion cleientiaid. Rydym yn cydnabod hefyd y gall datblygiad adnoddau a phrosesau digidol dros y blynyddoedd arwain at arbedion a chyfleoedd y gellir manteisio arnynt er budd cleientiaid a darparwyr.

Rydym yn cydnabod bod tystiolaeth o RoCLA ar yr heriau sy'n wynebu cymorth cyfreithiol sifil yn ymestyn y tu hwnt i'r meysydd penodol hyn. Mae ystod o faterion eraill i'w hystyried, gan gynnwys recriwtio a chadw, a phryderon bod yr ymwybyddiaeth o sut i gael gafael ar gymorth a chyngor cymorth cyfreithiol isel yn aml. Byddwn yn dal ati i ystyried tystiolaeth RoCLA a chyfleoedd ar gyfer rhagor o welliannau a chymorth, hyd yn oed lle nad oedd yn destun tystiolaeth a gasglwyd yn yr ymgynghoriad hwn.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn agored am wyth wythnos a bydd yn cau ar 21 Mawrth 2025. Edrychwn ymlaen at glywed barn y rhai sydd â diddordeb yn y newidiadau hyn. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, ein bwriad yw codi'r ffioedd erbyn diwedd Hydref 2025.

# Cyflwyniad

## Trosolwg o'r system cyngor cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr

Y farchnad cyngor cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yw 'un o waddolion mwyaf clodwiw'r Llywodraeth flaengar ar ôl y rhyfel'.[3] Mae'n cynnig cyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol, a chyfryngu sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus i unigolion cymwys mewn ystod o faterion cyfreithiol sifil. I ddibenion ei gontractau, mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn rhannu'r gwasanaethau hyn yn 11 categori gwahanol o'r gyfraith.[4] Mae'r farchnad yn cynnwys y darparwyr sy'n gwneud elw ac nid er elw sy'n darparu'r gwasanaethau cyfreithiol hyn.

I gael cymorth cyfreithiol sifil, rhaid i fater cyfreithiol yr ymgeisydd fod naill ai o fewn y cwmpas ar gyfer cymorth cyfreithiol neu fod yn gymwys i gael cyllid achos eithriadol. Rhaid i'r ymgeisydd hefyd basio'r profion modd a theilyngdod cymwys. Mae'r materion sydd o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol wedi'u nodi yn Rhan 1 o Atodlen 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO). Mae'r prawf teilyngdod yn disgrifio'r meini prawf y mae'n rhaid i gais eu cyflawni i gyfiawnhau cymorth cyfreithiol. Mae'r meini prawf penodol sy'n gymwys yn dibynnu ar y math o achos a'r math o gymorth cyfreithiol y gofynnir amdano. Fel enghraifft, un o'r meini prawf a gymhwysir yn aml yn achos ceisiadau am gynrychiolaeth gyfreithiol yw bod y rhagolygon o lwyddiant yn gorfod cyrraedd trothwy penodol. Mae'r prawf modd yn asesu cymhwystra ariannol ymgeisydd yn erbyn y trothwyon amrywiol fel dangosyddion o allu unigolyn i dalu eu ffioedd cyfreithiol eu hunain. Mae rhai achosion wedi'u heithrio o'r prawf modd (adwaenir y rhain fel achosion "di-brawf modd"). Os nad yw achos o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol, gall ymgeiswyr gael cymorth cyfreithiol os ydynt yn bodloni'r meini prawf achosion eithriadol (ECF) ac (yn y rhan fwyaf o achosion) yn cyflawni'r meini prawf modd a theilyngdod i fod yn gymwys.

Gellir crynhoi gwaith cymorth cyfreithiol yn achos Tai a Mewnfudo fel a ganlyn:

---

3 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, 'A fairer deal for legal aid' (2005), https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20081106091222/http:/www.dca.gov.uk/laid/laidfullpaper.pdf

4 Dyma'r categorïau: teulu; tai a dyled; mewnfudo a lloches; iechyd meddwl; gofal cymunedol; budd-daliadau lles; cyfraith gyhoeddus; gwahaniaethu; hawliadau yn erbyn awdurdodau lleol; addysg; ac esgeulustod clinigol. Mae hefyd waith amrywiol nad yw'n dod o dan y categorïau hyn.

| Gwaith Rheoledig | Gwaith Trwyddedig |
|---|---|
| Help cyfreithiol, help yn y llys a Chynrychiolaeth Gyfreithiol Reoledig mewn rhai tribiwnlysoedd mewnfudo. | Mae'n cynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol yn bennaf (heblaw Cynrychiolaeth Gyfreithiol Reoledig). |
| Mae'r cyfrifoldeb am y penderfyniad yn cael ei ddirprwyo gan y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol i ddarparwyr | Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ar ran y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol) sy'n gwneud y penderfyniad fel arfer, ond weithiau caiff ei ddirprwyo i ddarparwyr. Dangosir penderfyniad Gwaith Trwyddedig drwy gyhoeddi tystysgrif cymorth cyfreithiol |
| Niferoedd uchel o waith cost isel | Niferoedd is o waith cost uchel |
| Telir fel arfer drwy ddefnyddio ffioedd sefydlog | Telir y rhan fwyaf o gategorïau drwy ddefnyddio cyfraddau fesul awr |

Gall ECF gael ei ariannu naill ai fel Gwaith Rheoledig neu Waith Trwyddedig gan yn ddibynnol ar natur y cais.

Mae cyflwyno LASPO wedi arwain at ddiwygio'r system cymorth cyfreithiol yn sylweddol. Roedd ei nodau'n cynnwys targedu cymorth cyfreithiol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf amdano a gwneud arbedion sylweddol i gost y cynllun. Canfu Adolygiad Ôl-weithredu 2019 er bod LASPO wedi cyflawni rhai o'i amcanion, roedd nifer o heriau i'r MoJ eu goresgyn o hyd. Ers cyflwyno LASPO, mae nifer yr achosion a nifer y darparwyr wedi lleihau, gan gynnwys yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, lansiwyd yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil (RoCLA) ym mis Ionawr 2023, gyda'r nod o gasglu tystiolaeth i ganfod ffyrdd o wella cynaliadwyedd y ddarpariaeth cymorth cyfreithiol sifil. Bu'r RoCLA yn edrych ar y system cymorth cyfreithiol sifil yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys sut mae gwasanaethau'n cael eu caffael, pa mor dda mae'r system bresennol yn gweithio i ddefnyddwyr a darparwyr, a sut mae cymorth cyfreithiol sifil yn effeithio ar y system gyfiawnder ehangach.

## Gwella'r system cymorth cyfreithiol sifil

Mae tystiolaeth y RoCLA yn dangos yr heriau o ran darparu'r gwasanaeth, y galw uchel a'r proffidioldeb isel sy'n wynebu'r sector Tai a Mewnfudo, a'r angen i ymyrryd yn y farchnad. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i roi sylw i'r materion â'r flaenoriaeth uchaf ac i wneud gwelliannau ystyrlon i'r system gan gadw ein hymrwymiad i barhau i wneud rhagor o welliannau yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno cynigion i gynyddu ffioedd cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer gwaith Tai a Mewnfudo (Pennod 1). Rydym hefyd yn gofyn cwestiynau ynglŷn â sut y gellir gwella profiadau darparwyr a defnyddwyr o brosesau cymorth cyfreithiol (Pennod 2).

Yn y tymor hwy, rydym yn bwriadu ystyried a oes angen newidiadau ehangach i'r system – i wneud cymorth cyfreithiol yn fwy effeithiol, effeithlon a chynaliadwy.

# Pennod Un: Cynyddu ffioedd cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer gwaith Tai a Mewnfudo

## Cefndir

Telir am waith cymorth cyfreithiol sifil drwy ddefnyddio cymysgedd o gyfraddau fesul awr a ffioedd sefydlog, gyda'r rhan fwyaf o gategorïau'r gyfraith yn talu am Waith Trwyddedig drwy ddefnyddio cyfraddau fesul awr.[5] Mae gan y rhan fwyaf o ffioedd sefydlog drefniant dianc lle gall darparwyr gael eu talu yn ôl cyfraddau fesul awr pan fydd yr hawliad am waith a wnaed (a gyfrifir mewn cyfraddau fesul awr) yn fwy na'r trothwy dianc, sy'n ddwy neu dair gwaith yn fwy na'r ffi sefydlog. Gelwir y rhain yn 'achosion ffioedd dianc' yn unol â'r contract sifil safonol.

Y tro diwethaf i'r cyfraddau fesul awr presennol am waith sifil heblaw gwaith teulu gael eu codi oedd yn 1996. Pennwyd y rhan fwyaf o lefelau ffioedd sefydlog yn 2006, drwy ddefnyddio'r cyfraddau fesul awr a sefydlwyd yn 1996, gyda'r nod o roi gwell gwerth am arian a gwobrwyo darparwyr arloesol ac effeithlon.[6] Ar yr adeg hon, dywedodd y Llywodraeth ar y pryd mai ei nod oedd talu cyfraddau a oedd yn helpu i sicrhau bod cymorth cyfreithiol o safon uchel ar gael i'r rhai sydd ei angen, a chan sicrhau bod y system gyfreithiol yn parhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol.[7]

Yr egwyddor wrth wraidd cyflwyno ffioedd sefydlog yn 2007 oedd na ddylai darparwyr fod ar eu colled o'i gymharu â chyfraddau fesul awr: er y gallai darparwyr wneud llai o arian nag y byddent yn ei wneud o dan gyfraddau fesul awr mewn rhai achosion (mwy cymhleth), byddent yn gwneud mwy mewn achosion symlach nag y byddent wedi'i wneud o dan gyfraddau fesul awr. [8] Fel enghraifft, mae'r gyfradd help cyfreithiol Tai ar hyn o bryd

---

5 Teulu o ran gwariant a niferoedd hawliadau yw'r categori mwyaf o'r gyfraith o dan gontract cymorth cyfreithiol sifil. Defnyddir ffioedd sefydlog o dan gynrychiolaeth gyfreithiol yn ogystal â'r Cynllun Eiriolaeth Teulu a'r Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Teulu.

6 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, (2006) 'Legal Aid: a sustainable future' Chapter 6 pp.27-31. Ar gael: 8163 Diversity Pt 1 5th, https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20101014001356mp_/https:/consult.legalservices.gov.uk/gf2.ti/f/58306/1349861.1/pdf/-/Carterconsultation270706.pdf

7 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, (2006) 'Legal Aid Reform: the way ahead' p.24. Ar gael: https://www.gov.uk/government/publications/legal-aid-reform-the-way-ahead

8 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol (2006), 'Legal Aid: a sustainable future' p.25 Ar gael: 8163 Diversity Pt 1 5th,

yn ffi sefydlog o £157 (ac eithrio'r Gwasanaeth Cyngor Atal Colli Cartref (HLPAS), a'r Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng Nghyswllt Meddiant Tai (HPCDS). Mae hyn yn cyfateb yn fras i 3.5 awr yn ôl y gyfradd bresennol o £45.95 y tu allan i Lundain, a'r bwriad oedd y byddai darparwyr, ar gyfartaledd, yn gweithio'r nifer hwn o oriau am y math hwn o waith help cyfreithiol.

Rhwng 2011 a 2012, bu gostyngiad o 10% yn y rhan fwyaf o ffioedd sifil,[9] a lleihaodd LASPO gwmpas cymorth cyfreithiol sifil. Dywedodd darparwyr drwy RoCLA mai dim ond achosion cymhleth sy'n parhau o fewn cwmpas ac o ganlyniad, fod yr egwyddor "ennill rhai, colli rhai" a ddisgrifiwyd uchod sy'n sail i ffioedd sefydlog (lle mae unrhyw golledion bydd darparwyr yn eu gwneud yn cael eu canslo gan yr enillion) wedi'i thanseilio.

## Ffioedd Tai

**Newidiadau i gwmpas LASPO**

Lleihaodd LASPO gwmpas y cymorth cyfreithiol sydd ar gael i faterion tai. Mae'r meysydd sydd o fewn cwmpas ar hyn o bryd yn cynnwys achosion yn ymwneud â throi allan a meddiant (gan gynnwys ôl-ddyledion rhent), gorchmynion llys i wneud gwaith trwsio mewn tai lle mae'r diffygion yn achos perygl difrifol o niwed i iechyd neu ddiogelwch, gwaharddebau i warchod unigolion rhag aflonyddu sy'n deillio o faterion yn gysylltiedig â thai, a chymorth ailgartrefu i unigolion digartref. Drwy LASPO, cafodd achosion meddiant morgeisio eu hailddosbarthu fel gwaith dyledion.[10]

Arweiniodd LASPO at ddileu'r rhan fwyaf o achosion dyledion o'r cwmpas. Mae gwaith dyledion yn awr ar gael yn unig lle mae perygl uniongyrchol y gall y cleient golli eu cartref, achosion ailfeddiannu morgais a methdaliad anwirfoddol.

Fodd bynnag, yn 2023, cyflwynwyd cyngor cyfreithiol cynnar di-brawf modd ar gyfer materion tai, budd-daliadau lles, ôl-ddyledion y dreth gyngor a dyledion (lle mae unigolyn yn wynebu adfeddiannu neu droi allan o'u cartref) drwy'r Gwasanaeth Cyngor Atal Colli Cartref (HLPAS) ochr yn ochr â'r cynllun dyletswydd llys i roi cyngor a chynrychiolaeth am ddim, ar y diwrnod, mewn achosion meddiannaeth.

---

https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20101014001356mp_/https:/consult.legalservices.gov.uk/gf2.ti/f/58306/1349861.1/pdf/-/Carterconsultation270706.pdf

9 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2010), 'Proposals for reform in legal aid', p.116, https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7c811ae5274a559005a531/7967.pdf

10 Diffiniadau Categori i'r Contract Sifil Safonol, lle mae gwasanaethau o dan baragraff 33 o Ran 1 o Atodlen 1 o LASPO wedi'u rhannu rhwng Dyledion (paragraff 27 o'r Diffiniadau Categori) a Thai (is-baragraffau (a) a (b) o baragraff 37 o'r ddogfen honno): https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6745d74bbdeffdc82cffe160/Category_Definitions_2024__November_2024_.pdf

**Hanes cyfraddau fesul awr**

O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1988, roedd cyngor a chymorth (a adwaenir yn aml fel y Cynllun Ffurflen Werdd) yn cael eu talu drwy ddefnyddio cyfraddau fesul awr. Roedd cynrychiolaeth ardystiedig ar gyfer achosion heblaw Teulu'n cael ei thalu'n ôl cyfraddau fesul awr y canllaw barnwrol cyffredinol. Ers 1994, mae holl waith cyfreithwyr am achosion sifil yn cael ei dalu drwy gyfraddau fesul awr.[11] Cafodd y cyfraddau hyn eu diwygio yn 1996 ac maent yn dal i gael eu defnyddio ar gyfer peth gwaith hyd heddiw.

**Hanes ffioedd sefydlog**

Yn 2004, cafodd Ffioedd Sefydlog wedi'u Teilwra (TFF) eu cyflwyno ar gyfer nifer o gategorïau cymorth cyfreithiol sifil, gan gynnwys Tai.[12] Cafodd y rhain eu cyflwyno mewn ymateb i ganfyddiadau nad oedd y cynllun tâl blaenorol (cyfraddau fesul awr) yn gwneud digon i sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwyr ac nad oedd yn ddigon hyblyg i adlewyrchu amodau'r farchnad leol a oedd yn wynebu darparwyr. Y gobaith oedd y byddai symud i ryw fath o gystadleuaeth a reolir ar ansawdd a phris yn galluogi'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (rhagflaenydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA)) i bennu cyfraddau talu a fyddai'n adlewyrchu amodau'r farchnad genedlaethol a lleol yn well. Fel cam dros dro, cyflwynwyd TFF i baratoi ar gyfer dyfodol lle byddai'r ymagwedd at dâl yn rhoi pwyslais ar dalu am allbynnau. Roedd TFF yn talu ffi sefydlog am bob achos, yn seiliedig ar hawliadau cyfartalog darparwyr yn 2003/04, plws 2.5%. Bwriadwyd i'r 2.5% ychwanegol wobrwyo cyfreithwyr a ymunodd â'r cynllun gwirfoddol. Roedd nifer o fuddiannau ynghlwm wrth y cynllun hwn gan gynnwys archwiliadau cydymffurfiaeth heb gost (yn amodol ar berfformiad boddhaol yn erbyn ystod o ddangosyddion), sicrwydd taliadau a chynyddu proffidioldeb drwy arbedion effeithiolrwydd.

Yn 2007, disodlwyd y cynllun TFF gwirfoddol gan Gynllun Ffioedd Safonol gorfodol. Roedd y cynllun newydd yn cynnwys fi safonol fesul achos ym mhob categori gwaith o fewn y cynllun. Roedd y ffioedd wedi'u seilio ar hawliadau llawn a thaliadau TFF yn 2005/06 ond heb gynnwys hawliadau a farnwyd yn rhai "eithriadol". Roedd y cynllun hefyd yn cyflwyno ffi dianc tua thair gwaith maint y ffi safonol (a adwaenir yn aml fel sefydlog) i sicrhau bod achosion a oedd yn cymryd llawer iawn mwy o amser na'r cyfartaledd oherwydd eu cymhlethdod yn cael eu talu'n gymesurol. Mae taliadau'n cael eu hariannu ar wahân gyda'r cyfraddau ar gyfer arbenigwyr penodol wedi'u codeiddio mewn rheoliad.

---

11 Adran yr Arglwydd Ganghellor, 'Legal Aid – Targeting Need' (1995) p.106

12 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol (2004), Tailored Fixed Fee Scheme Consultation Paper: Civil (non-Immigration) Controlled Work', https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20090607192449/http:/www.legalservices.gov.uk/docs/civil_consultations/tailored_fixed_fee_consultation.pdf

## Ffioedd Mewnfudo

**Newidiadau i gwmpas LASPO**
Diddymodd LASPO y rhan fwyaf o faterion nad oedd yn ymwneud â lloches a mewnfudo o'r cwmpas. Mae cymorth cyfreithiol yn dal o fewn cwmpas i geisiadau lloches, achosion mewnfudo lle mae rhywun yn herio penderfyniad o gaethiwed, hawliadau llety am gymorth lloches, achosion y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig (e.e. diogelwch cenedlaethol), ar gyfer plant mewnfudwyr sydd wedi'u gwahanu, dioddefwyr trais domestig, dioddefwyr caethwasiaeth fodern ac adolygiadau barnwrol.

Daw gwaith mewnfudo mewn tri math: help cyfreithiol; cynrychiolaeth gyfreithiol, achosion y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig (Cynrychiolaeth Gyfreithiol Reoledig); a chynrychiolaeth gyfreithiol sy'n Waith Trwyddedig. Mae'r gwasanaethau cyfreithiol hyn ar gael i waith gan gynnwys yr isod:

- **Help cyfreithiol:** cyngor cychwynnol ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys ceisiadau am loches, cyngor gan gynnwys ceisiadau am fechnïaeth i rai dan gadwad mewnfudo, ceisiadau am ganiatâd i gael mynediad neu i aros ar Erthygl 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; ac ar rai materion mewnfudo yn ymwneud â phlant mewnfudwyr wedi'u gwahanu a dioddefwyr masnachu mewn pobl a cham-drin domestig.
- **Cynrychiolaeth Gyfreithiol Reoledig:** apeliadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf ar gyfer lloches a rhai achosion mewnfudo.
- **Cynrychiolaeth gyfreithiol Gwaith Trwyddedig:** apeliadau i'r Tribiwnlys Uchaf yn dilyn apêl Mewnfudo yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf ac achosion eraill yn y llysoedd uchaf (fel adolygiad barnwrol).

Gall darparwyr gadw amserlenni penodol i wneud gwaith contract o dan y Cynllun Gwaith Achos Lloches dan Gadwad (DAC) neu'r Cynllun Cyngor Dyletswydd dan Gadwad (DDAS).[13]

Telir am yr holl Waith Mewnfudo Rheoledig a Thrwyddedig naill ai drwy ffioedd safonol neu gyfraddau fesul awr, sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013.

**Hanes Cyfraddau Fesul Awr**
Fel yn achos ffioedd Tai a drafodwyd uchod, y tro diwethaf i gyfraddau fesul awr am waith Mewnfudo gael eu codi oedd yn 1996.

[13] Mae DAC yn cyfeirio at y cynllun UKVI a ddefnyddir i brosesu a phenderfynu ceisiadau am loches gan unigolion sydd dan gadwad, ac mae DDAS yn cyfeirio at y trefniadau ar waith i ddarparu cymorthfeydd mewn Canolfannau Symud Ymaith sy'n cynnig hyd at 30 munud o gyngor heb gyfeiriad at gymhwystra ariannol yr unigolyn.

**Hanes Ffioedd Sefydlog**

Roedd Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr gael eu hachredu cyn darparu cyngor ar fewnfudo. Yn 2004, cyflwynwyd ffioedd uwch i gyflenwyr a oedd yn cynnig gwasanaeth o safon uchel gyson i gleientiaid ac a oedd yn cyrraedd lefelau uwch o fewn y cynllun achredu. Yn 2007, cyflwynwyd cynllun ffi safonol. Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o achosion mewnfudo a mwyafrif yr achosion lloches. Mae'r cynllun yn talu darparwr ar ôl cwblhau achos neu gam achos y byddai cais mewnfudo neu loches yn ei ddilyn fel arfer a'r gwasanaethau cyfatebol y byddwn yn disgwyl cael eu darparu yn achos y ceisiadau rheini. Roedd y ffioedd yn cael eu cynhyrchu ar sail nifer cyfartalog yr oriau o waith achos sydd ei angen i gwblhau'r gwaith. O dan y cynllun ffioedd, mae ffioedd a thaliadau ychwanegol yn gymwys beth bynnag fo'r lleoliad daearyddol. Nid yw darparwyr yn Llundain yn cael eu talu'n ôl cyfradd uwch oni bai bod y gwaith yn newid o ffioedd safonol i gyfraddau fesul awr. Yn dilyn ymgyfreithia, daethpwyd i gytundeb yn 2008 â Chymdeithas y Cyfreithwyr i gynyddu cyfraddau ffioedd dianc.

Yn 2023, gwnaed nifer o newidiadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyflwyno ffioedd sefydlog newydd ar gyfer apeliadau yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf sydd ac sydd ddim yn mynd i wrandawiad.
- Cyflwyno trothwy dianc newydd ar gyfer apeliadau system ar-lein, a bennwyd ar ddwywaith gwerth y ffi sefydlog berthnasol, a lleihau'r trothwy dianc ar gyfer achosion help cyfreithiol i ddwywaith gwerth y ffi sefydlog.
- Datgysylltu'r trefniant dianc fel na fydd angen wedyn i hawliadau Cam 1 (help cyfreithiol) a Cham 2 (cynrychiolaeth gyfreithiol reoledig) gael eu hadio at ei gilydd i benderfynu a ydynt yn cyrraedd y trothwy dianc. Gall pob cam yn awr ddianc ar eu pen eu hunain.

Bwriadwyd i'r newidiadau hyn greu model taliadau tecach i ddarparwyr a oedd yn arwain at gydbwysedd rhwng achosion a oedd yn talu gormod a rhai nad oedd yn talu digon ac a fyddai'n arwain at gyfran uwch o achosion yn talu costau ei hachosion a adroddwyd. Amcangyfrifwyd ar adeg eu gweithredu y byddai'r newidiadau hyn yn golygu cynnydd o 6% yn incwm y darparwyr.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2023, newidiwyd contractau cymorth cyfreithiol fel y gallai cyngor a ddarparwyd mewn Cymorthfeydd DDAS mewn Canolfannau Symud Mewnfudwyr Ymaith gael ei ddarparu o bell, yn ôl disgresiwn y darparwr, os yn briodol. Dechreuodd y Llywodraeth hefyd dalu amser teithio rhesymol i ddarparwyr i gydnabod y problemau a brofwyd gan ddarparwyr wrth deithio i ganolfannau gadw mewn ardaloedd diarffordd.

# Cynigion

**Egwyddorion sy'n llywio prosesau penderfynu ar ffioedd cymorth cyfreithiol sifil**
Wrth wneud penderfyniadau ar ffioedd cymorth cyfreithiol, cafodd yr egwyddorion canlynol eu defnyddio. Dylai cynigion cymorth cyfreithiol:

1. Sicrhau marchnad cymorth cyfreithiol tai a mewnfudo gynaliadwy drwy dalu cyfradd sy'n galluogi darparwyr i ddenu a chadw gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ac sy'n galluogi darparwyr i arloesi a rhoi cynnig ar fodelau cyflawni gwahanol.
2. Sicrhau bod darpariaeth o safon uchel ar gael i'r sawl sy'n gymwys ac annog datrysiadau cynnar pan yn briodol.
3. Lleihau nifer y gwahanol gyfraddau a delir, gan baratoi'r ffordd i symleiddio'r cynlluniau ffioedd yn y dyfodol a fydd yn ei gwneud yn haws i'r LAA gynnal eu systemau digidol a'i gwneud yn llai cymhleth i ddarparwyr gyflwyno hawliadau. Bwriedir i hyn symleiddio a chyflymu prosesu a thalu biliau.
4. Talu pris teg i annog modelau cyflawni effeithlon a sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwyr.

**Cwestiwn 1)** A ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion ar gyfer pennu lefelau ffioedd cymorth cyfreithiol sifil? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen cynyddu ffioedd Tai a Mewnfudo**
Rydym yn cynnig cynyddu ffioedd Mewnfudo a Thai am fod y dystiolaeth yn awgrymu bod y ffioedd presennol yn achosi pwysau difrifol o ran cynaliadwyedd y sector a bod angen cynyddu'r ffioedd i wella gallu defnyddwyr cymwys i gael gafael ar gymorth cyfreithiol Tai a Mewnfudo. Mae sectorau cymorth cyfreithiol sifil eraill yn dal o dan ystyriaeth i gynyddu'r ffioedd fel rhan o ail gam Adolygiad o Wariant y Llywodraeth, a gynhelir yn ystod Gwanwyn 2025.

Mae'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen cynyddu lefelau er mwyn sicrhau argaeledd cymorth cyfreithiol tai a mewnfudo fel a ganlyn:

- **Lefelau gwasanaeth –** Yn dilyn rownd dendro ddiweddar yr LAA, ers Rhagfyr 2024, erbyn hyn mae 8 ardal tai a dyledion heb ddarpariaeth uniongyrchol a 5 bwlch HLPAS, lle'r ydym yn gweithio ar hyn o bryd i'w llenwi.[14] Mae'r LAA yn datblygu trefniadau allgymorth ar gyfer Tai ac yn gweithio â darparwyr i lenwi'r bylchau sy'n weddill yn y ddau gynllun. Mae nifer yr ardaloedd heb ddarpariaeth wyneb yn wyneb ar gyfer cymorth cyfreithiol tai wedi cynyddu ers y tendr diwethaf a bu nifer cynyddol o ail dendro aflwyddiannus am gontractau darparwyr. Ers y tendr diweddaraf bu gostyngiad

[14] Er bod ardaloedd heb ddarpariaeth uniongyrchol, mae mynediad at Gyngor Cyfreithiol Sifil ar gael o unrhyw le yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnig gwasanaeth ffôn neu bost.

o 10% yn nifer y darparwyr Mewnfudo. Bu prinder hefyd yn nifer y darparwyr Mewnfudo yn Ne Orllewin Lloegr yn benodol, lle bu'n rhaid dilyn trefniadau wrth gefn.

- **Galw uchel** - Yn Adroddiad Arolwg Darparwyr RoCLA, dywedodd 50% o'r darparwyr fod y galw'n uchel iawn, gyda hyn yn llawer mwy tebygol o gael ei nodi yn achos gwasanaethau Tai (65%) a Mewnfudo (83%). Yn achos Tai, er bod rhai bylchau yn y ddarpariaeth yn bodoli am fod niferoedd yr achosion meddiannu mewn llysoedd lleol yn rhy isel i alluogi practis a fyddai'n hyfyw yn fasnachol, mi wyddom am lysoedd eraill, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, lle mae'r galw'n uchel iawn. Yn y tymor hwy, rydym yn disgwyl y bydd y mesurau Diwygio Tenantiaethau yn y Bil Hawliau Rhentwyr, a fydd yn gymwys i denantiaethau yn Lloegr, i leihau nifer y gwrandawiadau meddiant mewn llysoedd, gan mai dim ond yr achosion rheini lle mae sail glir, gyda thystiolaeth ddigonol dros feddiannu a fydd yn gallu bwrw ymlaen. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y galw am gymorth cyfreithiol Tai a HLPAS yn codi gan y bydd angen gwrandawiad ar bob hawliau ar ôl diddymu'r broses meddiant adran 21. Hefyd, o ystyried y gostyngiad yn nifer y darparwyr, efallai na fydd digon o drefniadau wrth gefn yn y sector i ddygymod â'r cynnydd yn y galw am gymorth cyfreithiol Mewnfudo sy'n deillio o ymrwymiad y Llywodraeth i leihau'r ôl-groniad lloches, rhoi'r gorau i ddefnyddio gwestai a chynyddu nifer y bobl sy'n cael eu dychwelyd.
- **Pryderon y sector ynglŷn â chadw darparwyr** – os na welir newidiadau yn y sector cymorth cyfreithiol sifil, dywedodd 40% o'r darparwyr a holwyd yn arolwg darparwyr RoCLA eu bod yn bwriadu gadael y sector o fewn y pum mlynedd nesaf.[15] O gofio'r galw a'r lefelau gwasanaeth a ddisgrifiwyd uchod, rydym yn pryderu y bydd defnyddwyr cymwys yn cael anhawster cael gafael ar gymorth cyfreithiol Tai a Mewnfudo os bydd cymaint â hynny'n gadael.
- **Proffidioldeb –** Canfu arolwg darparwyr RoCLA mai hyfywedd ariannol oedd y prif reswm a roddwyd gan bractisau preifat (65%) ac nid-er-elw (37%) a oedd wedi rhoi'r gorau i gontract cymorth cyfreithiol sifil. Mae'r ymchwil i gynaliadwyedd a wnaed ar ran Cymdeithas y Cyfreithwyr gan Frontier Economics yn dangos problemau sylweddol yn y categori Tai, lle gwelwyd fod y gwaith hwn yn gwneud colled i'r holl ddarparwyr a holwyd (noder fod Frontier Economics wedi eithrio costau sy'n golygu costau rhwng partïon er mwyn deall a yw'r cyfraddau cymorth cyfreithiol sifil a nodwyd yn ddigon i adennill costau[16]). Canfu eu hymchwil fod yr enillydd ffioedd cyfartalog ar gyfer Tai'n adennill 48% yn unig o gost cyflawni gwaith cymorth cyfreithiol. Mae tystiolaeth arall a

[15] PA Consulting (2024), 'Review of Civil Legal Aid: Provider Survey Report', p.9, https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65aa4068ed27ca000d27b28a/civil-legal-aid-providers-survey.pdf

[16] Mae costau rhwng y partïon yn cyfeirio at allu un parti mewn achos cyfreithiol i adennill eu costau o ddwyn achos gan y parti arall. Nid yw gorchmynion o'r fath ar gael ym mhob achos cyfreithiol. Bydd y llys yn gorchymyn un ochr i dalu costau'r achos, fel arfer am eu bod yn aflwyddiannus, ond gall wneud hynny hefyd lle mae parti wedi bod neu wedi ymddwyn yn afresymol yn ystod yr ymgyfreithia. Gall y costau hyn gael eu hadennill ar gyfraddau preifat rhesymol.

gyflwynwyd i'r MoJ y tu allan i RoCLA ac a ystyriwyd ochr yn ochr â gwaith Frontier Economics ar Dai a Theulu, yn dangos fod Gwaith Mewnfudo Rheoledig hefyd yn debygol o wneud colled. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod angen cynyddu'r ffi am waith Tai a Mewnfudo i sicrhau bod defnyddwyr cymwys yn dal i allu cael gafael ar gymorth cyfreithiol.

**Cwestiwn 2)** A ydych chi'n cytuno y dylem gynyddu'r ffioedd a delir am waith Tai a Mewnfudo? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cynnydd penodol mewn ffioedd Tai a Mewnfudo**
Ffioedd yw'r prif gyfrwng sydd gennym i symbylu darparwyr i ymgymryd â chontractau cymorth cyfreithiol a chynyddu faint o waith cymorth cyfreithiol maent yn ei wneud. Rydym yn awyddus i gadw'r nod a ddisgrifiwyd uchod i dalu cyfraddau sy'n hybu darpariaeth cymorth cyfreithiol o safon uchel i'r sawl sydd ei hangen, a hefyd i sicrhau bod y system cymorth cyfreithiol yn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol.

*Dadansoddiad meincnodi ffioedd*
Comisiynodd Cymdeithas y Cyfreithwyr Frontier Economics i gynnal ymchwil i gynaliadwyedd darparwyr cymorth cyfreithiol sifil Tai a Theulu.[17] Rydym wedi defnyddio data o'r gwaith ymchwil hwn i feincnodi pa mor broffidiol fyddai gwahanol gyfraddau fesul awr, ac i helpu i bennu lefelau ffioedd, mewn ymateb i dystiolaeth o RoCLA fod lefelau ffioedd yn achosi colledion a bod hynny'n brif reswm pam nad oedd darparwyr yn awyddus i wneud gwaith cymorth cyfreithiol.

Cafodd swyddogion y MoJ gyfle gan Frontier Economics i gyfrannu at lunio'r arolwg a chawsant fynediad at ddata sy'n dangos dosbarthiad costau, refeniw a phroffidioldeb darparwyr heb ddatgelu manylion y cwmnïau dan sylw. Hoffem ddiolch eto i Gymdeithas y Cyfreithwyr am fod mor barod i rannu'r data a chanfyddiadau eu gwaith ymchwil. Dyma'r dystiolaeth uniongyrchol orau sydd gennym ar gyfer pennu lefel y ffioedd. Gweler **Atodiad A** am fanylion am gyfyngiadau'r ymchwil.

Gan ddefnyddio'r data hyn, rydym wedi cymharu'r costau sy'n codi i gwmnïau wrth wneud gwaith cymorth cyfreithiol a faint o refeniw cymorth cyfreithiol y gallant ei gynhyrchu ar lefelau ffioedd gwahanol i weld pa gyfradd fesul awr fyddai ei hangen i gyfran benodol o gwmnïau wneud elw tybiannol. Mae'r costau'n cynnwys cyflogau a chostau gorbenion wedi'u dosrannu. Rydym wedi defnyddio'r data i gyfrifo, yn achos y rhan fwyaf o ddarparwyr Tai a arolygwyd, mai £60 yw'r gyfradd fesul awr a fyddai'n galluogi mymryn dros hanner y darparwyr a arolygwyd i wneud elw. Nid yw union broffidioldeb y sector cyfan o ddarparwyr cyfreithiol yn rhywbeth y gellir ei gyfrifo'n fanwl, oherwydd mi fydd

[17] https://www.lawsociety.org.uk/topics/research/civil-legal-aid-sustainability%20

lefelau proffidioldeb yn dibynnu ar nifer o ffactorau heblaw am y cyfraddau a delir; ffactorau a fydd yn amrywio rhwng darparwyr mewn nifer o ffyrdd, fel costau gweithredu, staff a modelau busnes, cymysgedd yr achosion a faint o waith a wneir. Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio cyfradd defnydd benodol sy'n cymharu faint o waith y codir biliau amdano gyda chyfanswm yr oriau a weithir, i ganfod pa ganran o'r oriau a weithir sy'n cael ei neilltuo i waith y codir biliau amdano. I gadarnhau'r dull hwn, rydym wedi cyfeirio at Arolwg Meincnodi Ariannol Cymdeithas y Cyfreithwyr 2024 sy'n awgrymu y dylai rhai nad ydynt yn bartneriaid "fod yn edrych ar 1,200 neu 1,300 o oriau, gan ddibynnu ar y math o waith a phrofiad".[18] Byddai hyn rhwng 71% a 77% yn ôl ein methodoleg cyfradd defnydd. Dangosodd ein dadansoddiad o'r data cynaliadwyedd fod y cyfraddau defnydd cyfredol ar gyfer darparwyr Tai yn is (rhwng 50% a 60%) ac yn ôl y cyfraddau defnydd cyfredol, byddai cyfradd fesul awr o £60 yn golygu y byddai 75% o'r darparwyr Tai a arolygwyd yn gwneud colled.

Mae sawl cyfyngiad ynghlwm wrth y dadansoddiad meincnodi hwn:

- Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar ddarparwyr cyfredol yn unig ac mae'n cael yr effaith o leihau'r cymhelliad ariannol i adael cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, nid yw'n dweud wrthym faint o gapasiti ychwanegol y gall darparwyr newydd ei gynnig.
- Roedd maint y sampl o ddarparwyr yn yr ymchwil cynaliadwyedd yn fychan ac nid oedd yn gwbl gynrychioliadol o'r holl ddarparwyr cymorth cyfreithiol Tai.
- Mae costau gorbenion yn gost a rennir ar draws yr holl waith a wneir gan y darparwr. Roedd y rhain yn cael eu dosrannu rhwng gwaith cymorth cyfreithiol a phreifat lle'r oedd darparwr yn gwneud y ddau fath o waith. Roedd yn rhaid i'r arolwg wneud amryw dybiaethau o ran sut y gwneir hyn.
- Fel y nodwyd uchod, bydd union broffidioldeb darparwyr cymorth cyfreithiol unigol yn amrywio yn ddibynnol ar gostau gweithredu, modelau busnes, cymysgedd yr achosion a nifer achosion y cwmnïau.

Rydym wedi ategu'r data hyn â thystiolaeth ar gostau ar gyfer darparwyr Mewnfudo a roddwyd yn uniongyrchol i'r MoJ, a oedd yn dangos bod Gwaith Mewnfudo Rheoledig yn gwneud colled yn ôl y cyfraddau presennol. Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn ymwneud â dau ddarparwr ac roedd yn awgrymu y byddai cyfraddau o tua £60 yr awr yn eu galluogi i adennill eu costau.

*Cynigion*

Mae'r anhawster wrth dendro am ddarpariaeth cymorth cyfreithiol mewn Tai a Mewnfudo, ynghyd â lefelau uchel yn y galw a'r dystiolaeth am broffidioldeb yn awgrymu, yn achos rhai darparwyr, nad yw ffioedd Tai a Mewnfudo ar y lefel gwir erbyn hyn i'w cymell i wneud gwaith cymorth cyfreithiol. Rydym felly'n cynnig cynyddu'r ffioedd am waith Tai a

[18] Arolwg Meincnodi Ariannol Cymdeithas y Cyfreithwyr 2024, p22, https://www.lawsociety.org.uk/topics/research/financial-benchmarking-survey-2024

Mewnfudo i helpu i sicrhau bod defnyddwyr cymwys yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfreithiol a datrys eu problemau cyfreithiol yn briodol a phrydlon.

Rydym yn cynnig cynyddu cyfraddau paratoi, presenoldeb ac eiriolaeth am waith a wneir o dan gontract Tai neu Fewnfudo i gyfradd fesul awr o £65.35/£69.30 (y tu allan i Lundain/Llundain) a chodi ffioedd sefydlog gyda chynnydd cymesurol cyfatebol. Mae hyn wedi'i seilio ar gynyddu ffioedd i'r gyfradd o £60 yr awr y dywedodd ychydig dros hanner y darparwyr a holwyd a fyddai'n eu galluogi i wneud elw, ac yna ychwanegu cynnydd ychwanegol o 10%. Gweler **Atodiad A** am ddisgrifiad manwl o sut y cyfrifwyd y ffigur hwn. Lle na fyddai'r gyfradd isaf newydd yn golygu cynnydd o leiaf 10%, bydd y gyfradd yn cael ei chynyddu 10%.

Mae cyfraddau eraill (teithio ac aros, presenoldeb yn y llys, cynhadledd neu dribiwnlys â chwnsel, llythyrau a galwadau ffôn arferol) a fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau fesul awr. Cafodd y cynnydd canrannol ar gyfer y gyfradd baratoi, presenoldeb ac eiriolaeth berthnasol ei gymhwyso i'r cyfraddau hyn hefyd, ond rydym hefyd yn bwriadu symleiddio'r ffioedd hyn - gweler yr adran isod ar symleiddio ffioedd.  Rydym yn cynnig cyflwyno dull safonol yn achos cyfraddau am deithio ac aros, a phresenoldeb yn y llys, cynhadledd neu dribiwnlys â chwnsel. Yn achos gweithgarwch sy'n cael ei wneud o dan naill ai'r contract Tai neu Fewnfudo, bydd y rhain yn cael eu talu'n ôl 50% o'r gyfradd baratoi a phresenoldeb. Yn achos cyfraddau llai (fel galwadau ffôn a llythyrau arferol), bydd y rhain yn cael eu cysoni'n ôl y gyfradd uchaf i greu cyfradd reoledig Llundain a'r tu allan i Lundain a chyfradd llys Uwch ac Is, a thribiwnlys, drwyddedig ar gyfer pob gweithgarwch.

Bwriadir i'r cynnig hwn wella hyfywedd ariannol gwaith cymorth cyfreithiol sifil Tai a Mewnfudo. Bydd yn codi ffioedd yn uwch na'r gyfradd £60 fesul awr gyda chynnydd pellach i gymell darparwyr i dderbyn ac i ehangu eu gwasanaethau cymorth cyfreithiol, gan alluogi'r rhan fwyaf o ddarparwyr i wneud elw ar waith cymorth cyfreithiol.

Ni fydd y ffioedd hyn yn gymwys i waith a wneir o dan gategorïau eraill o'r gyfraith. Er enghraifft, mae'r categorïau yn Nhabl 10a[19] o'r rheoliadau taliadau'n cael eu cynyddu ar gyfer gwaith a wneir fel rhan o'r contract sifil Tai neu fewnfudo, ond nid ar gyfer mathau eraill o waith. Bydd darparwyr sy'n gweithio mewn sawl categori o'r gyfraith yn cael cyfraddau uwch am waith Tai a Mewnfudo'n unig.

*Cymharu'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd ag egwyddorion pennu ffioedd*

Rydym yn gobeithio y bydd y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn annog cyngor cynnar a datrysiadau cynnar pan yn briodol, drwy gysoni'r cyfraddau isaf am Waith Rheoledig

[19] Defnyddir Tabl 10a ar gyfer taliadau Gwaith Trwyddedig heblaw Tai ac mae'n cynnwys cyfraddau ar gyfer: Paratoi a Phresenoldeb; Presenoldeb yn y llys neu gynhadledd â Chwnsel; Eiriolaeth, Teithio ac Amser Aros; Llythyrau Arferol Allan and Galwadau ffôn arferol.

gyda'r rhai am Waith Trwyddedig. Rydym yn gobeithio y bydd cysoni'r gyfradd hon yn galluogi darparwyr i gynyddu faint o gyngor cynnar maent yn gallu ei gynnig i gleientiaid. Y gwaith sy'n cael ei dalu'n ôl y cyfraddau isaf ar hyn o bryd, sy'n waith help cyfreithiol yn bennaf, fydd yn gweld y cynnydd mwyaf. Mae hyn yn golygu y gall darparwyr gynyddu effaith y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd ar eu busnesau os byddant yn cynyddu faint o'r math hwn o waith a wneir ganddynt.

Mae'r cynnydd arfaethedig yn y ffioedd yn ymdrech i hybu marchnad cymorth cyfreithiol Tai a Mewnfudo fwy cynaliadwy gan fod ein dadansoddiad yn awgrymu y dylai'r cyfraddau hyn ei gwneud yn bosibl i fwyafrif y darparwyr i weithredu'n effeithlon i wneud elw ar waith cymorth cyfreithiol. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn galluogi darparwyr i fuddsoddi ac arloesi yn eu busnesau. Er ein bod wedi ymdrechu i gael cyfradd sy'n caniatáu gwneud elw, bydd proffidioldeb darparwyr unigol yn deillio o gyfuniad o'r ffactorau a bennir gennym ni a phenderfyniadau a wneir gan y darparwr, a bydd yn rhaid i ddarparwyr reoli amryw o ffactorau o fewn eu rheolaeth i'w galluogi i wneud elw. Mae enghreifftiau o'r ffactorau hyn yn cynnwys cymysgedd a nifer yr achosion mae darparwyr yn eu derbyn, a fydd modd hawlio costau rhwng y partïon mewn achosion, costau gweithredu, ac a fyddwn yn gallu derbyn cleientiaid preifat yn ogystal â chleientiaid cymorth cyfreithiol. Ni all y model dadansoddol a ddefnyddiwyd gennym i benderfynu ar y gyfradd fesul awr isaf felly warantu hyfywedd ariannol i gwmnïau unigol gan ei fod yn gwneud amryw o dybiaethau, ac ni fydd pob darparwr o reidrwydd yn gwneud y penderfyniadau a dybir gan y model. Fodd bynnag, rydym yn credu bod y model hwn yn dangos bod cynnig gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn amhroffidiol i'r cwmnïau a oedd yn y sampl, o dan y ffioedd presennol.

Mae gan y cynnig i dalu isafswm ffioedd fesul awr y potensial i leihau nifer y gwahanol gyfraddau a delir o fewn y system cymorth cyfreithiol sifil gymhleth bresennol. Bydd hyn yn ein galluogi i symleiddio'r cynlluniau ffioedd yn y dyfodol gan y bydd llawer o'r ffioedd yr un faint, sy'n golygu y gellid cyfuno sawl tabl cyfraddau Hefyd, rydym yn bwriadu cysoni rhan o'r is-ffioedd fel 'Teithio ac amser aros', 'Presenoldeb yn y llys neu gynhadledd â Chwnsel', a 'Llythyrau arferol allan' a 'galwadau ffôn. Rydym wedi cynnwys mwy o fanylder am y cynigion isod. Bydd symleiddio pellach yn lleihau'r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth gyflwyno hawliadau i ddarparwyr ac yn ei wneud yn haws i'r LAA gynnal ei systemau digidol. Dylai hyn olygu llai o waith gweinyddu a dylai gyflymu'r amser prosesu ar gyfer bilio, gyda darparwyr a'r LAA yn elwa.

Yn olaf, mae'r cynigion yn sicrhau gwerth am arian drwy flaenoriaethu cynnydd yn y categorïau o'r gyfraith lle mae'r heriau mwyaf a chanfod lefel o gynnydd a fydd yn cyflawni ein nodau mewn ffordd effeithlon.

*Cynnydd cyffredinol effeithiol*

Bydd pob math o achos, os ydynt yn ymwneud â Thai neu Fewnfudo, yn gweld cynnydd mewn ffioedd. Mae'r cynigion yn golygu cynnydd cyffredinol o 30% yng nghyfanswm y gwariant yn achos ffioedd Mewnfudo, 21% ar gyfer ffioedd Tai, 16% ar gyfer ffioedd

Dyledion, a 42% ar gyfer ffioedd HLPAS. Bydd hyn yn golygu buddsoddiad o £20m yn ychwanegol yn y system cymorth cyfreithiol pan fydd wedi'i weithredu'n llawn. Bydd yr union gynnydd a gaiff darparwyr unigol yn dibynnu ar ba gymysgedd o achosion y byddant yn ei dderbyn. Mae ffioedd a chyfraddau wedi'u talgrynnu i'r bunt agosaf yn achos ffioedd sefydlog, ac i'r pum ceiniog agosaf yn achos ffioedd fesul awr. Yn achos cynnydd mewn ffioedd penodol, gweled **Atodiad B.**

**Enghraifft ymarferol: Enghraifft o gynyddu ffioedd ar gyfer Tai**

Y ffi bresennol ar gyfer gwaith help cyfreithiol Tai yw £157 (Tabl 1 yn y rheoliadau taliadau). Mae hyn yn seiliedig ar gyfradd sylfaenol fesul awr o £45.95/£48.74 (fel Tabl 7(b)).

Bydd angen cynnydd o 42% yn y ddwy gyfradd fesul awr sylfaenol hyn i gyrraedd y cyfraddau isaf fesul awr newydd (£65.35/£69.30). Bydd cymhwyso'r cynnydd hwn i'r ffi sefydlog yn golygu ffi o £223.29 ar gyfer gwaith help cyfreithiol Tai, sydd wedyn cael ei dalgrynnu i £223.

Mae'r trothwy dianc yn parhau i fod dair gwaith maint y ffi sefydlog, sy'n golygu bod y trothwy dianc yn codi i £669.

**Enghraifft ymarferol: Cynyddu'r ffi fesul awr ar gyfer Tai a Mewnfudo**

Y gyfradd Gwaith Trwyddedig gyfredol ar gyfer gwaith paratoi a phresenoldeb gerbron Llysoedd Uwch yn Llundain (Tabl 10(a)) yw £71.55. Mae hyn yn uwch na'r gyfradd fesul awr arfaethedig newydd o £69.30, felly bydd y gyfradd yn codi 10%. Bydd hyn yn golygu cyfradd fesul awr newydd o £78.71, a fydd yn cael ei thalgrynnu i £78.70 (y pum ceiniog agosaf). Bydd y gyfradd hon yn gymwys i waith Tai a Mewnfudo yn unig.

**Enghraifft ymarferol: Cynyddu'r ffi sefydlog ar gyfer Mewnfudo**

Y ffi gyfredol ar gyfer gwaith help cyfreithiol Lloches yw £413 (Tabl 4(a)). Mae'r ffi hon wedi'i seilio ar gyfradd sylfaenol fesul awr o £48.24/£52.65, y tu allan i Lundain/Llundain, (fel yn Nhabl 7(a)).

Rydym yn cynnig codi'r gyfradd sylfaenol fesul awr i £65.35/£69.30. Mae hyn yn golygu y bydd angen codi'r gyfradd sylfaenol fesul awr 35% neu 32%. Gan fod y ffi help cyfreithiol yn ffi genedlaethol, rydym wedi cynyddu'r ffi sylfaenol yn ôl yr uchaf o'r ddau gynnydd. Mae cymhwyso hyn yn achos y ffi sefydlog yn golygu ffi o £559.48 ar gyfer gwaith help cyfreithiol Lloches. Byddwn wedyn yn talgrynnu hyn i'r bunt agosaf, a fydd yn ei gwneud yn £559.

Mae'r trothwy dianc yn parhau i fod dwywaith y ffi sefydlog, sy'n golygu bod y trothwy dianc yn codi i £1,118.

**Cwestiwn 3)** A ydych chi'n cytuno y dylai ffioedd ar gyfer gwaith Tai a Mewnfudo gael eu codi i leiafswm o £65.35/£69.30 yr awr (y tu allan i Lundain / o fewn Llundain)? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 3a)** Os yw'r ffi yn uwch na'r gyfradd hon eisoes, a ydych chi'n cytuno y dylai ffioedd godi 10%? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 4)** A ydych chi'n cytuno y dylai isafswm y gyfradd fesul awr ar gyfer Gwaith Rheoledig a Thrwyddedig fod yr un faint? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 5)** A ydych chi'n cytuno y bydd ein cyfraddau arfaethedig yn galluogi darparwyr cymorth cyfreithiol i ymgymryd â mwy o waith cymorth cyfreithiol? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Gweithredu**
O gofio natur systemau digidol LAA, bydd y cynnydd yn aml yn gorfod cael eu gweithredu'n ddilyniannol. Rydym wedi ystyried dwyster y pwysau a brofir ym mhob categori o'r gyfraith a maint y cynnydd sydd ei angen ac wedi dod i'r casgliad mai ffioedd Mewnfudo ddylai gael eu codi gyntaf. Pan fydd ffioedd Mewnfudo wedi'u codi, caiff ffioedd Tai wedyn eu codi. Rydym yn rhagweld y gallai gweithredu'r ddau gategori gymryd hyd at chwe mis o'r amser pan gaiff yr ymateb i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi.

**Cwestiwn 6)** A ydych chi'n cytuno y dylai'r cynnydd i Fewnfudo gael ei weithredu gyntaf? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Trefniadau trosiannol**
Daw cynnydd i'r ffioedd i rym pan fydd Offeryn Statudol sy'n newid Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013 wedi'i gyflwyno ac wedi dod i rym, a bod newidiadau digidol wedi'u rhoi ar waith. Bydd cynnydd mewn ffioedd yn gymwys i bob tystysgrif newydd neu benderfyniad ar ôl y dyddiad hwn.

**Symleiddio ffioedd**
Rydym hefyd wedi penderfynu defnyddio'r cyfle hwn i wneud cynigion i symleiddio'r system ffioedd Tai a Mewnfudo. Thema gyffredin yn yr ymatebion i'n Galwad am Dystiolaeth ac adroddiadau o'r RoCLA oedd cymhlethdod y system ffioedd a'r anawsterau mae hyn yn ei achosi i ddarparwyr cymorth cyfreithiol. Ffactor allweddol yn hyn o beth yw nifer y gwahanol ffioedd y gall darparwyr wneud biliau ar eu cyfer. Oherwydd hyn, dywed darparwyr eu bod yn treulio amser anghymesur o hir ar y broses o baratoi biliau, tasg na cheir tâl amdani, ac sy'n golygu costau gweinyddol uwch.

O ganlyniad, rydym wedi penderfynu ar ddwy ffordd o ddechrau mynd ati i symleiddio ffioedd gan sicrhau bod pob ffi o fewn Tai a Mewnfudo yn gweld cynnydd sydd o leiaf 10%. Yn dilyn y cynnydd mewn ffioedd a gyfrifir o dan y cynigion a ddisgrifir uchod, roedd y ffioedd eilaidd yn amrywio yn ôl canrannau bychan iawn. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyflwyno dull diffiniedig i uno'r rhain.

Y cynnig cyntaf yw cysoni, sy'n golygu defnyddio'r un dull o gyfrifo ffioedd ar gyfer 'teithio ac amser aros' a 'Phresenoldeb yn y llys neu gynhadledd â Chwnsel'. Bydd y ffioedd hyn yn cael eu cyfrifo'n ôl 50% o'r gyfradd fesul awr wedi'i chynyddu ar gyfer 'Paratoi a Phresenoldeb', sydd fwy neu lai'r un faint â'r ffioedd ar hyn o bryd. O dan y cynnig hwn, byddwn yn cadw'r gwahaniaeth rhwng y ffi sy'n gymwys i Waith Rheoledig a Thrwyddedig i 'amser teithio ac aros'. Bydd nodi'r dull diffiniedig ar gyfer y cyfraddau hyn yn golygu y bydd y cyfraddau hyn, yn y dyfodol, yn newid mewn cytgord ag unrhyw newidiadau yn y cyfraddau presenoldeb.

**Enghraifft ymarferol**

Mae'r amser teithio ac aros cyfredol ar gyfer Gwaith Trwyddedig heblaw Teulu cyn yr Uwch Lysoedd o dan Dabl 10a yn £29.93. Mae hyn yn gymwys i waith trwyddedig Tai a Mewnfudo.

Bydd y gyfradd paratoi a phresenoldeb newydd ar gyfer y gwaith hwn yn £69.30. Rydym yn cynnig pennu teithio ac amser aros yn ôl 50% o'r gyfradd hon. Mae hyn yn golygu y bydd y ffioedd teithio ac aros yn cynyddu i £34.65, sy'n gynnydd o 16% o'i gymharu â'r ffi bresennol.

Yn ail, rydym yn cynnig creu un ffi ar gyfer 'Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn' o fewn Gwaith Rheoledig (gan gadw'r gwahaniaeth rhwng Llundain/y tu allan i Lundain) ac un ffi ar gyfer 'ysgrifennu llythyrau arferol' a 'Galwadau ffôn arferol' ar gyfer Gwaith Trwyddedig (gan gadw'r gwahaniaeth rhwng Llysoedd Uwch ac Is). Byddwn yn gwneud hyn drwy gymryd y ffi uchaf sy'n gymwys yn achos 'Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn' Llundain a'r tu allan i Lundain mewn Gwaith Rheoledig a'r 'ysgrifennu llythyrau arferol' a 'galwadau ffôn' uchaf Llysoedd Uwch ac Is ar gyfer Gwaith Trwyddedig ac alinio'r holl ffioedd perthnasol eraill â hynny. Rydym hefyd yn cynnig cadw'r gwahaniaeth yn y Llysoedd Uwch ac Is fel yr hyn a geir yn y rheoliadau.

**Enghraifft ymarferol**

Mae'r cyfraddau presennol "Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn" Llundain ar gyfer Gwaith Rheoledig rhwng £3.78 a £4.14.

O dan y cynnig arfaethedig byddai'r ffioedd "Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn" am Waith Rheoledig yn codi i'r cyfraddau £4.95-£5.35 (gan y byddai pob ffi'n cael ei chodi'n ôl yr un ganran â'r gyfradd paratoi a phresenoldeb berthnasol).

Rydym yn cynnig cysoni “Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn” Llundain yn ôl y gyfradd uchaf o £5.35.

Er enghraifft, byddai hyn yn golygu bod y gyfradd Llundain gyfredol ar gyfer llythyrau arferol allan a galwadau ffôn o dan dabl 7(a) yn y rheoliadau taliadau yn cynyddu 32% o £4.05 i £5.35.

Bydd y dull hwn yn lleihau nifer y gwahanol gyfraddau sy’n daladwy am waith Tai a Mewnfudo o 77 i 45. Rydym wedi paratoi tabl cynhwysfawr yn **Atodiad B** i ddangos sut y byddai’r newid hwn yn gweithio’n ymarferol.

**Cwestiwn 7)** A ydych chi’n cytuno â symleiddio’r system ffioedd drwy gysoni’r ffioedd a nodwyd? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod.

Os hoffech roi adborth penodol ar bob cynnig, lluniwch eich ateb fel a ganlyn:

**7a)** Adborth ar gysoni ‘amser teithio ar aros’ a ‘presenoldeb yn y llys, cynhadledd neu dribiwnlys â Chwnsel’ yn ôl 50% o’r gyfradd fesul awr am ‘Paratoi a Phresenoldeb’ yn Mewnfudo a Thai a/neu;

**7b)** Adborth ar godi pob ‘Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn’ mewn Mewnfudo a Thai i’r gwerth uchaf sy’n bresennol ar ôl i’r cynnydd ddigwydd.

**Cwestiwn 8)** A ydych yn cytuno ein bod wedi pennu ystod a graddfa’r effeithiau ar gydraddoldeb yn gywir yn achos y cynnydd mewn ffioedd i ddarparwyr a ddangosir uchod? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau. Os yn bosibl, dylech gynnwys tystiolaeth am ragor o effeithiau ar gydraddoldeb, fel sy’n briodol.

# Pennod Dau: Gwella’r profiad o brosesau cymorth cyfreithiol

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i’r ymgynghoriad hwn, mae’r dystiolaeth a gasglwyd o’r RoCLA yn dangos pryderon a nifer o heriau sy’n ymestyn y tu hwnt i hyfywedd ariannol darparwyr. Mae’r rhain yn cynnwys heriau o ran recriwtio a chadw, cyflenwi’r farchnad a chapasiti, hygyrchedd gwasanaethau ac effeithiolrwydd y system cymorth cyfreithiol sifil.

Mae darparwyr wedi datgan nad yw amlder y tendro fel y mae ar hyn o bryd yn rhoi digon o hyblygrwydd i ddarparwyr newydd posibl i gael contractau cymorth cyfreithiol sifil nac i rai presennol i ehangu eu gwasanaethau, ac nad yw hynny’n cymell darparwyr newydd.

Ail agorodd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol Gontract Caffael Sifil Safonol 2024 ym mis Rhagfyr 2024. Bydd y broses gaffael yn parhau’n agored yn ystod cylch y contract, fel y gall darparwyr newydd ymgeisio am Gontract Sifil Safonol 2024 ar unrhyw adeg ac y gall darparwyr presennol wneud cais i gynyddu eu gwasanaethau. Mae’r dull hwn hefyd yn rhoi cyfle gwell i ymgeiswyr i gywiro camgymeriadau yn eu ceisiadau yn hytrach na bod contract yn cael ei wrthod am nad oedd hyn wedi’i gyflawni erbyn dyddiad penodedig.

Mae’r Bennod hon yn disgrifio camau cyntaf edrych ar feysydd posibl i’w gwella yn y profiad o ddefnyddio prosesau cymorth cyfreithiol sifil, i ddarparwyr a defnyddwyr. Y nod yw archwilio a datblygu ein dull o ddileu rhai rhwystrau, cyfyngiadau a gorbenion i ddarparwyr, a seilio’r system yn fwy uniongyrchol ar anghenion a dewisiadau defnyddwyr. Bwriadwyd i’r camau hyn helpu i fynd i’r afael ag anawsterau y cyfeiriwyd atynt yn y RoCLA fel meysydd sy’n achos pryder ac mae’n cynnwys meysydd lle hoffem gasglu rhagor o dystiolaeth fel sail i fwy o newidiadau a gwelliannau.

## Gweithio o bell

**Cefndir**
Mae Rheoliad 22 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012 (y Rheoliadau Gweithdrefn) yn nodi bod yn rhaid i rywun sy’n ymgeisio am Waith Rheoledig fynychu swyddfa’r darparwr yn bersonol, oni bai bod y darparwr yn penderfynu nad oes angen eu presenoldeb yn unol â threfniant y darparwr â’r Arglwydd Ganghellor o dan Adran 2(1) o LASPO.

Ar hyn o bryd, yn unol â’r Rheoliadau Gweithdrefn, mae contractau cymorth cyfreithiol sifil yn datgan na ddylai nifer y Materion Gwaith Rheoledig lle nad yw’r cleient yn mynychu swyddfa’r darparwr yn bersonol i wneud cais am Waith Rheoledig fod yn fwy na 50%, ac

eithrio achosion lle’r oedd darpariaeth am gais o bell yn ofynnol fel addasiad rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gall y darparwr hefyd wneud cais i’r LAA am awdurdod i fynd ymhellach na’r terfyn hwnnw. Ers Awst 2024, yn achos cymorth cyfreithiol Mewnfudo, mae’r cyfyngiad wedi’i gynyddu i ganiatáu 75% o Faterion Gwaith Rheoledig lle nad yw’r cleient yn bresennol yn bersonol yn swyddfa’r darparwr i wneud cais am Waith Rheoledig.

Awgrymodd adborth o Alwad am Dystiolaeth y RoCLA y dylai’r terfynau gael eu haddasu i ganiatáu mwy o waith o bell. Awgrymodd darparwyr fod buddiannau posibl yn cynnwys mwy o ddewis i gleientiaid, mynediad mwy dibynadwy at gymorth cyfreithiol, llai o amser teithio a mwy o gost effeithiolrwydd. Roedd tystiolaeth a gasglwyd gan y RoCLA hefyd yn awgrymu y gallai cael cyngor wyneb yn wyneb fod yn anodd mewn rhai ardaloedd daearyddol, sy’n golygu y byddai angen ystyried unrhyw newidiadau i’r gofyniad yn ofalus.

**Camau rydym yn eu hystyried**
Bydd amgylchiadau bob amser lle bydd angen darparu cyngor wyneb yn wyneb i rai cleientiaid cymorth cyfreithiol, yn rhai cleientiaid agored i niwed. Roedd y RoCLA wedi canfod bod llawer o grwpiau agored i wyneb yn elwa ar ddarpariaeth wyneb yn wyneb, a bod mynediad digidol a llythrennedd digidol yn parhau’n ystyriaeth i gyfran o’r boblogaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw’r terfyn o 50% wedi’i ddiffinio gan bwyslais ar anghenion unigolion, ac y dylai darparwyr benderfynu’n unigol pa gleientiaid sydd angen cyngor wyneb yn wyneb. Mae contractau cymorth cyfreithiol sifil hefyd yn datgan yn benodol bod yn rhaid i ddarparwyr sicrhau bod cyngor wyneb yn wyneb yn cael ei ddarparu pryd bynnag fydd ei angen fel addasiad rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae’n bwysig, fodd bynnag, ein bod yn cadw sicrwydd dros allu darparwyr i ddarparu cyngor a chefnogaeth cymorth cyfreithiol effeithiol, a bod y sicrwydd hwn yn cynnwys ymddygiad cyfrinachol proffesiynol a chyngor wyneb yn wyneb sy’n aml yn sensitif i gleientiaid, yn ogystal â chyngor a chefnogaeth cymorth cyfreithiol o bell.

Rydym felly’n ystyried a ddylid dileu neu leihau’r gofyniad cymorth cyfreithiol sifil presennol sy’n cyfyngu ar nifer y ceisiadau am Faterion Gwaith Rheoledig y gellid delio â hwy o bell. Rydym yn nodi o Alwad am Dystiolaeth y RoCLA y potensial i ddarparwyr a hawlwyr elwa. Bwriad unrhyw newidiadau fyddai gwella hyblygrwydd darparwyr i gynllunio sut maent yn darparu gwasanaethau i’w cleientiaid yn seiliedig ar eu crebwyll proffesiynol a’u profiad o anghenion defnyddwyr, ac wrth wneud hynny efallai hybu gallu darparwyr i wneud penderfyniadau busnes effeithiol ac i reoli costau busnes. Mae angen cydbwyso hyn â’r angen i ddarparwyr allu darparu cymorth wyneb yn wyneb pan fydd ei angen ar gleientiaid. Roedd darparwyr yn cydnabod y bydd angen cyngor a chymorth wyneb yn wyneb ar gleientiaid, ac y gellid delio’n well ag achosion mwy cymhleth wyneb yn wyneb, yn enwedig i feithrin perthynas, ond hefyd nad oes angen am hyn yn aml.

Mae ystod o ystyriaethau a rhagor o waith i’w wneud i ddeall yr effeithiau posibl hyn yn well – buddiannau a risgiau – unrhyw newidiadau i’r gofynion hyn, a allai arwain at newidiadau sylweddol i’r ffordd mae cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei ddarparu. Er

enghraifft, un effaith bosibl y byddai'n rhaid inni ei hystyried yw a fyddent yn newid amodau daearyddol argaeledd cyngor wyneb yn wyneb. Byddai'n rhaid i unrhyw gynigion ystyried sut y gallant newid amodau darparwyr yn gyffredinol, gan gynnwys argaeledd cyngor wyneb yn wyneb mewn ardaloedd daearyddol. I sicrhau bod unrhyw newidiadau y gallem eu gwneud i'r gofynion contractiol presennol ar gyngor o bell yn cael eu hystyried yn briodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, rydym yn gyntaf am wella ein dealltwriaeth o:

- buddiannau ac effeithiau posibl newidiadau i'r gofynion ar weithio o bell ar gleientiaid;
- buddiannau ac effeithiau posibl sicrhau bod cleientiaid sydd angen cyngor wyneb yn wyneb yn ei gael;
- sut mae sicrhau bod ystyriaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu hadlewyrchu;
- yr effeithiau posibl ar y farchnad cymorth cyfreithiol a beth allai'r newidiadau ei olygu i ddarparwyr.

**Cwestiwn 9)** A ddylem ni ddileu neu leihau cyfyngiadau ar nifer y Materion Gwaith Rheoledig lle nad yw'r cleient yn mynychu swyddfa'r cleient i wneud cais am Waith Rheoledig? Nodwch a ddylem/na ddylem/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 9a)** Gan feddwl am y cyfyngiad ar geisiadau Gwaith Rheoledig y gellir eu cyflawni o bell, ym mha ffordd mae hyn yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyngor wyneb yn wyneb ac o bell, yn seiliedig ar angen y cleient. Gallwch ddewis mwy nag un

**i)** mae'n ddigonol (eglurwch pam)

**ii)** mae'n creu problemau (eglurwch pam)

**iii)** arall (rhowch fanylion)

**Cwestiwn 9b)** Pe bai'r cyfyngiadau hyn yn cael eu dileu neu eu lleihau, a ydych chi'n rhagweld y byddai eich cwmni neu sefydliad, yn y meysydd lle'r ydych yn darparu help a chyngor cymorth cyfreithiol, yn:

**i)** Darparu mwy o gyngor o bell? Tua pha ganran yn fwy?

**ii)** Darparu llai o gyngor o bell? Tua pha ganran yn llai?

**iii)** Dim newid yn y canrannau cyffredinol o ran darpariaeth cyngor o bell?

**iv)** Ddim yn siŵr/gwybod.

Dylech hefyd gynnwys unrhyw ddata neu dystiolaeth sydd gennych i ategu eich ateb.

**Cwestiwn 10)** Roedd tystiolaeth y RoCLA yn cynnwys adborth mai darparwyr sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa bryd fydd angen cyngor wyneb yn wyneb ar gleientiaid, a pha bryd fyddai cyngor o bell yn briodol. Fodd bynnag, mae perygl y gallai darparwyr droi fwy at ddarparu cyngor o bell mewn ffordd sy'n ei gwneud yn anodd i gleientiaid sydd angen cyngor wyneb yn wyneb ddod o hyd i ddarparwr. Wrth sicrhau mwy o hyblygrwydd i ddarparu cyngor o bell, pa fesurau neu gamau diogelu a fyddai'n helpu i sicrhau nad yw cleientiaid yn cael eu gwrthod neu'n colli blaenoriaeth, am fod angen darpariaeth wyneb yn wyneb arnynt?

**Cwestiwn 11)** Pa gategorïau neu feysydd o'r gyfraith lle'r ydych yn gweithredu ynddynt (neu mae gennych brofiad ohonynt), ydych wedi eu defnyddio wrth ateb cwestiynau 9 a 10?

## Gofynion swyddfeydd

**Cefndir**
Mae ystod o ofynion contractiol o ran swyddfeydd sy'n rhan o'r gwahanol gategorïau cymorth cyfreithiol sifil. Ac eithrio nifer o gategorïau penodol, mae'n ofynnol mewn contractau cymorth cyfreithiol sifil bod gan ddarparwyr swyddfa barhaol mewn ardal gaffael sy'n agored ac yn hygyrch yn ffisegol i gleientiaid a'r cyhoedd am saith awr y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yr eithriadau i hyn yw lle mae gan ddarparwyr gontractau mewn un neu fwy o'r categorïau canlynol yn unig: Hawliadau yn Erbyn Awdurdodau Cyhoeddus, Esgeulustod Clinigol, Gofal Cymunedol, Gwahaniaethu, Addysg a Chyfraith Gyhoeddus. Yn y categorïau hyn y gofyniad contractiol yw presenoldeb rhan amser: sy'n golygu bod yn rhaid i'r swyddfa fod yn agored ac yn hygyrch yn ffisegol i gleientiaid yn rheolaidd bob wythnos am o leiaf un diwrnod llawn neu ddau hanner diwrnod yr wythnos. Mae'r trefniadau gwahanol wedi datblygu dros amser ac wedi'u selio ar yr angen hanesyddol i gydbwyso mynediad priodol i gyngor wyneb yn wyneb lleol a lefel y baich gweinyddol ar y darparwr.

Roedd adborth o'r Alwad am Dystiolaeth yn cynnwys rhai awgrymiadau i ddiddymu gofynion swyddfeydd yn amodol ar allu darparwr i barhau i ddarparu cyngor wyneb yn wyneb mewn lleoliad addas.

Mae'n bwysig, fodd bynnag, ein bod yn cadw sicrwydd ynglŷn ag ansawdd gwaith a gallu darparwyr i ddarparu cyngor a chefnogaeth cymorth cyfreithiol effeithiol, ac mae'r sicrwydd hwn yn cynnwys gallu (a darparu) cyngor a chefnogaeth cymorth cyfreithiol wyneb yn wyneb ac o bell. Mae tystiolaeth a gasglwyd gan y RoCLA hefyd wedi awgrymu y gallai sicrhau cyngor wyneb yn wyneb fod yn anodd mewn rhai ardaloedd daearyddol, sy'n

golygu y byddai'n rhaid ystyried unrhyw newidiadau i'r gofyniad ar fynediad cleientiaid at gymorth cyfreithiol yn ofalus.

Nid ydym yn rhagweld y byddem yn diddymu'r gofyniad bod darparwyr yn darparu gwasanaethau mewn lleoliadau daearyddol penodol (ardaloedd caffael). Fodd bynnag, mae posibilrwydd y gallai gofynion swyddfeydd newid i gyd-fynd â sut mae'r farchnad cymorth cyfreithiol yn gweithredu. Gallai ymestyn rhyddid darparwyr i ehangu'r defnydd o dechnoleg fodern arwain at ffyrdd newydd i ddarparwyr drefnu eu busnes a darparu cyngor cymorth cyfreithiol yn lleol, yn rhanbarthol a chenedlaethol ac o bosibl hybu gallu darparwyr i wneud penderfyniadau busnes effeithiol a rheoli costau busnes. Rhaid cydbwyso potensial o'r fath gyda pharhau i ddiwallu'r angen am gyngor wyneb yn wyneb hygyrch. Mae ystod o ystyriaethau ac mae angen rhagor o waith i ddeall yr effeithiau posibl yn well – buddiannau a risgiau – newidiadau posibl i'r gofynion hyn, a allai arwain at newidiadau sylweddol i'r ffordd mae cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei ddarparu.

Rydym am weld rhagor o dystiolaeth i'n helpu i bwyso a mesur y buddiannau a'r risgiau posibl a sicrhau y bydd datblygiad unrhyw newidiadau arfaethedig wedi'i seilio ar dystiolaeth.

**Camau yr ydym yn eu hystyried**
Rydym yn ystyried a oes angen newid y Contract Sifil Safonol i naill ai diddymu neu leihau'r gofynion contractiol o ran nifer yr oriau a'r dyddiau y mae'n rhaid i swyddfa darparwr agor. Y bwriad fyddai newid gofynion swyddfeydd parhaol lle mae'r gofynion presennol yn ddiangen ac yn amharu ar hyblygrwydd, a rhyddhau capasiti i helpu cwmnïau i gynyddu oriau swyddfa mewn lleoliadau sy'n seiliedig ar angen a darparu cyngor o safon uchel. Nid ydym yn bwriadu diddymu'r gofyniad bod darparwyr yn darparu gwasanaethau mewn ardaloedd daearyddol penodol (ardaloedd caffael). Byddai disgwyliad ar bob darparwr sy'n cynnig gwasanaethau seiliedig ar ardal o'r fath i barhau i ddarparu cyngor wyneb yn wyneb mewn amgylchiadau sy'n addas i gynnal trafodaethau proffesiynol cyfrinachol a sensitif yn aml ynghyd â chyngor cyfreithiol i gleientiaid, lle mae eu crebwyll proffesiynol yn barnu bod ei angen.

I sicrhau bod unrhyw newidiadau y gallem eu gwneud i'r gofynion contractiol presennol ar swyddfeydd parhaol mewn ardal gaffael wedi'u hystyried a'u profi'n briodol, bydd angen inni'n gyntaf wella ein dealltwriaeth o:
- buddiannau ac effeithiau posibl newidiadau i argaeledd cyngor cyfreithiol wyneb yn wyneb i gleientiaid;
- effeithiau posibl newidiadau i'r amgylchedd lle mae cyngor cyfreithiol wyneb yn wyneb yn cael ei ddarparu;
- sicrhau bod ystyriaethau Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael sylw;
- effaith bosibl newidiadau i'r farchnad cymorth cyfreithiol – gan gynnwys yr effaith ar gwmnïau darparu mwy a llai;

- effaith bosibl newidiadau ar ein gallu i fonitro argaeledd daearyddol cymorth cyfreithiol ar hyd a lled Cymru a Lloegr.

**Cwestiwn 12)** A hoffech chi weld y gofyniad contractiol ar gyfer lleoliad swyddfeydd parhaol yn cael ei leihau neu ei ddiddymu? Nodwch a hoffech/na hoffech/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 13)** A yw'r gofyniad ar gyfer swyddfa barhaol yn rhoi digon o hyblygrwydd ar gyfer argaeledd cymorth cyfreithiol sifil yn seiliedig ar eich profiadau chi o anghenion cleientiaid mewn unrhyw gategori o'r gyfraith?

**Cwestiwn 13a)** Lle **nad yw'r** gofyniad yn caniatáu digon o hyblygrwydd, yn eich profiad chi, beth yw'r effaith ar y ddarpariaeth cyngor cyfreithiol i gleientiaid?

**Cwestiwn 14)** Pe bai newid i'r gofyniad ar swyddfeydd parhaol, pa fesurau neu gamau diogelu a fyddai'n helpu i sicrhau ein bod yn diwallu'r angen i sicrhau bod cleientiaid yn cael mynediad at gyngor cyfreithiol sifil wyneb yn wyneb, mewn amgylchedd diogel, preifat a hygyrch?

## Camau eraill rydym yn eu cymryd

Dangosodd tystiolaeth o'r RoCLA y byddai darparwyr yn croesawu llai o feichiau gweinyddol. Rydym yn ystyried yr adborth o ran y prosesau i agor mwy o achosion cymorth cyfreithiol ("New Matter Starts") a byddwn yn ymgysylltu eto â darparwyr ynglŷn ag unrhyw opsiynau a ddatblygir. Nid ydym yn rhagweld y byddai unrhyw newidiadau i ofynion contractiol yn y maes hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Rydym hefyd yn edrych ar opsiynau i roi sylw i heriau sy'n gysylltiedig ag ymwybyddiaeth a chyfeirio at gymorth cyfreithiol, a nodwyd fel materion arwyddocaol yn ystod y RoCLA. Os nad oes gan bobl a all fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol lawer o wybodaeth ynglŷn â sut mae cael cefnogaeth a chyngor cymorth cyfreithiol, mae perygl y byddant yn oedi cyn chwilio am help. Mi allai hyn ddwysau eu problemau cyfreithiol, a all eu gwneud yn anos i'w datrys. Byddwn yn ymgysylltu â darparwyr a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys y sector cynghori fel bydd yn briodol wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

# Pennod Tri: Casgliadau a’r camau nesaf

Mae’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn nodi cam pwysig yn ymateb y Llywodraeth i’r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o’r RoCLA a oedd yn dangos bod y sectorau Tai a Mewnfudo o dan bwysau eithriadol.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl na all fforddio talu am wasanaethau cyfreithiol. Mae cymorth cyfreithiol yn helpu i orfodi safonau iechyd, diogelwch a hygyrchedd mewn unedau rhent, gwarchod tenantiaid sydd mewn perygl o golli eu cartref, ac eiriol dros fynediad at dai fforddiadwy. Bydd y cynigion a ddisgrifir yma’n helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyfreithiol yn parhau ar gael ar gyfer gwaith Tai a Mewnfudo, gan alluogi’r bobl fwyaf agored i niwed i gael cyngor cyfreithiol pan fydd ei angen arnynt. Bydd y cynnydd mewn ffioedd yn arwain at fwy o help i rai sy’n wynebu problemau tai difrifol, fel cael eu troi allan neu ddigartrefedd.

Mae’r llywodraeth hon wedi ymrwymo i wella’r profiad i rai sy’n gymwys i gael cymorth cyfreithiol a’r darparwyr sy’n weithgar yn y sector. Ynghyd â chodi’r ffioedd ar gyfer Tai a Mewnfudo, rydym wedi mynd ati i gasglu rhagor o dystiolaeth ar newidiadau penodol i’r Contract Sifil Safonol a fydd yn helpu darparwyr i wneud penderfyniadau busnes a phroffesiynol er budd pennaf eu cleientiaid. Mae hyn wedi cynnwys cael tystiolaeth ar y ddarpariaeth gynyddol mewn cymorth cyfreithiol sifil o bell a lleihau gofynion ar swyddfeydd. Roedd hyn er mwyn ein galluogi i ddeall buddiannau ac effeithiau posibl y newidiadau hyn. Rydym hefyd wedi disgrifio rhai o’r camau rydym yn eu cymryd o ran New Matter Starts, gwella ymwybyddiaeth a threfniadau cyfeirio ar gyfer defnyddwyr, a recriwtio a chadw.

Mae adborth rhanddeiliaid yn hanfodol i lywio penderfyniadau polisi’r dyfodol. Rydym yn gobeithio y bydd yr ymgynghoriad hwn, a chyhoeddi adroddiadau’r RoCLA, yn creu gobaith y gellir gwella’r sector, ac y byddwch yn gallu gweld y camau cyntaf rydym yn eu cymryd i ailadeiladu’r system cyfiawnder sifil.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn agored tan 21 Mawrth 2025. Cyhoeddir ymateb i’r ymgynghoriad yn ystod Gwanwyn 2025 a fydd yn cynnwys penderfyniad terfynol o ran codi ffioedd cymorth cyfreithiol sifil, ac i ba raddau.

# Holiadur

Buasem yn croesawu eich ymatebion i'r cwestiynau canlynol a geir yn y papur ymgynghori.

**Cwestiwn 1)** A ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion ar gyfer pennu lefelau ffioedd cymorth cyfreithiol sifil? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 2)** A ydych chi'n cytuno y dylem gynyddu'r ffioedd a delir am waith Tai a Mewnfudo? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 3)** A ydych chi'n cytuno y dylai ffioedd ar gyfer gwaith Tai a Mewnfudo gael eu codi i leiafswm o £65.35/£69.30 yr awr (y tu allan i Lundain / o fewn Llundain)? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 3a)** Os yw'r ffi yn uwch na'r gyfradd hon eisoes, a ydych chi'n cytuno y dylai ffioedd godi 10%? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 4)** A ydych chi'n cytuno y dylai isafswm y gyfradd fesul awr ar gyfer Gwaith Rheoledig a Thrwyddedig fod yr un faint? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 5)** A ydych chi'n cytuno y bydd ein cyfraddau arfaethedig yn galluogi darparwyr cymorth cyfreithiol i ymgymryd â mwy o waith cymorth cyfreithiol? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 6)** A ydych chi'n cytuno y dylai'r cynnydd i Fewnfudo gael ei weithredu gyntaf? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 7)** A ydych chi'n cytuno â symleiddio'r system ffioedd drwy gysoni'r ffioedd a nodwyd? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod.

Os hoffech roi adborth penodol ar bob cynnig, lluniwch eich ateb fel a ganlyn:

**7a)** Adborth ar gysoni 'amser teithio ar aros' a 'presenoldeb yn y llys, cynhadledd neu dribiwnlys â'r Cwnsel' yn ôl 50% o'r gyfradd fesul awr am 'Paratoi a Phresenoldeb' yn Mewnfudo a Thai a/neu;

**7b)** Adborth ar godi pob 'Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn' mewn Mewnfudo a Thai i'r gwerth uchaf sy'n bresennol ar ôl i'r cynnydd ddigwydd.

**Cwestiwn 8)** A ydych yn cytuno ein bod wedi pennu ystod a graddfa'r effeithiau ar gydraddoldeb yn gywir yn achos y cynnydd mewn ffioedd i ddarparwyr a ddangosir uchod? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau. Os yn bosibl, dylech gynnwys tystiolaeth o ragor o effeithiau ar gydraddoldeb, fel sy'n briodol.

**Cwestiwn 9)** A ddylem ni ddileu neu leihau cyfyngiadau ar nifer y Materion Gwaith Rheoledig lle nad yw'r cleient yn mynychu swyddfa'r cleient i wneud cais am Waith Rheoledig? Nodwch a ddylem/na ddylem/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 9a)** Gan feddwl am y cyfyngiad ar geisiadau Gwaith Rheoledig y gellir eu cyflawni o bell, ym mha ffordd mae hyn yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyngor wyneb yn wyneb ac o bell, yn seiliedig ar angen y cleient. Gallwch ddewis mwy nag un

**i)** mae'n ddigonol (eglurwch pam)

**ii)** mae'n creu problemau (eglurwch pam)

**iii)** arall (rhowch fanylion)

**Cwestiwn 9b)** Pe bai'r cyfyngiadau hyn yn cael eu dileu neu eu lleihau, a ydych chi'n rhagweld y byddai eich cwmni neu sefydliad, yn y meysydd lle'r ydych yn darparu help a chyngor cymorth cyfreithiol, yn:

**i)** Darparu mwy o gyngor o bell? Tua pha ganran yn fwy?

**ii)** Darparu llai o gyngor o bell? Tua pha ganran yn llai?

**iii)** Dim newid yn y canrannau cyffredinol o ran darpariaeth cyngor o bell?

**iv)** Ddim yn siŵr/gwybod.

Dylech hefyd gynnwys unrhyw ddata neu dystiolaeth sydd gennych i ategu eich ateb.

**Cwestiwn 10)** Roedd tystiolaeth RoCLA yn cynnwys adborth mai darparwyr sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa bryd fydd angen cyngor wyneb yn wyneb ar gleientiaid, a pha bryd fydd cyngor o bell yn briodol. Fodd bynnag, mae perygl y gallai darparwyr droi fwy at ddarparu cyngor o bell mewn ffordd sy'n ei gwneud yn anodd i gleientiaid sydd angen cyngor wyneb yn wyneb ddod o hyd i ddarparwr. Wrth sicrhau mwy o hyblygrwydd i ddarparu cyngor o bell, pa fesurau neu gamau diogelu a fyddai'n helpu i sicrhau nad yw cleientiaid yn cael eu gwrthod neu'n colli blaenoriaeth, am fod angen darpariaeth wyneb yn wyneb arnynt?

**Cwestiwn 11)** Pa gategorïau neu feysydd o'r gyfraith ydych chi'n gweithredu ynddynt (neu â phrofiad ohonynt), yr ydych wedi eu defnyddio wrth ateb cwestiynau 9 a 10?

**Cwestiwn 12)** A hoffech chi weld y gofyniad contractiol ar gyfer lleoliad swyddfeydd parhaol yn cael ei leihau neu ei ddiddymu? Nodwch hoffech/na hoffech/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau.

**Cwestiwn 13)** A yw’r gofyniad ar gyfer swyddfa barhaol yn rhoi digon o hyblygrwydd ar gyfer argaeledd cymorth cyfreithiol sifil yn seiliedig ar eich profiadau chi o anghenion cleientiaid mewn unrhyw gategori o’r gyfraith?

**Cwestiwn 13a)** Lle **nad yw’r** gofyniad yn caniatáu digon o hyblygrwydd, yn eich profiad chi, beth yw’r effaith ar y ddarpariaeth cyngor cyfreithiol i gleientiaid?

**Cwestiwn 14)** Pe bai newid i’r gofyniad ar gyfer swyddfeydd parhaol, pa fesurau neu gamau diogelu a fyddai’n helpu i sicrhau ein bod yn diwallu’r angen i sicrhau bod cleientiaid yn cael mynediad at gyngor cyfreithiol sifil wyneb yn wyneb, mewn amgylchedd diogel, preifat a hygyrch?

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghoriad hwn.**

# Atodiad A – Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i benderfynu ar y lefelau ffioedd arfaethedig a’r cynnydd o 10%

## Crynodeb o’r cynnig

Rydym yn cynnig cynyddu cyfraddau paratoi, presenoldeb ac eiriolaeth i gyfradd fesul awr o £65.35/£69.30 (y tu allan i Lundain/Llundain) a chodi ffioedd sefydlog yn ôl cynnydd cyfrannol cyfatebol. Lle na fyddai’r gyfradd isaf hon yn cyrraedd cynnydd sydd o leiaf 10%, bydd y gyfradd yn codi 10%.

## Cyd-destun a meincnodi

I gyrraedd y gyfradd hon, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymarferiad meincnodi. Roedd hyn yn cynnwys cymharu costau cymorth cyfreithiol cwmnïau (gan gynnwys costau staff a gorbenion dosranedig) â maint y refeniw cymorth cyfreithiol y gallant ei gynhyrchu i weld sut oedd cyfraddau fesul awr yn effeithio ar amcangyfrifon o broffidioldeb. Mae amcangyfrif proffidioldeb cwmni’n fater cymhleth ac ansicr.

Cafodd y meincnodi ei ategu gan fodel sy’n rhoi amcangyfrif o broffidioldeb. Roedd hwn yn defnyddio data o ymchwil cynaliadwyedd Cymdeithas y Cyfreithwyr[20] a gynhaliwyd gan Frontier Economics yn y dull canlynol:

1. **Asesu costau a refeniw**
   Defnyddiwyd y data i gael amcangyfrif dangosol o gostau, refeniw a phroffidioldeb darparwyr cymorth cyfreithiol. Rydym wedi defnyddio hwn i gael amcangyfrif o gost gyfwerth ag amser llawn (FTE) enillydd ffioedd a refeniw cymorth cyfreithiol fesul enillydd ffioedd FTE. Mae’r gwahaniaeth rhwng y ddau newidyn yn dangos a yw cwmni’n gallu gwneud elw ar y pryd. I feincnodi lefelau ffioedd newydd, roeddem wedyn yn cyfrifo refeniw’r enillydd ffioedd FTE a allai gael ei gynhyrchu ar gyfradd defnydd benodol.

2. **Defnyddio tybiaeth cyfradd defnydd**
   I amcangyfrif cyfanswm refeniw'r enillydd ffioedd FTE ar gyfradd newydd y dybiaeth allweddol sydd ei hangen yw cyfanswm yr oriau bilio a weithiwyd gan yr enillydd ffioedd

[20] Civil legal aid: sustainability research | The Law Society, https://www.lawsociety.org.uk/topics/research/civil-legal-aid-sustainability

FTE. Rydym wedi edrych ar hyn o ran “cyfradd defnydd” enillydd ffioedd - hynny yw, nifer yr oriau bilio y mae cyflogai’n ymgymryd â hwy fel cyfran o gyfanswm yr oriau a weithir. Dangosir cyfraddau defnydd yn hytrach nag oriau bilio gan eu bod yn rhoi ymdeimlad gwell o’r gwahaniaeth rhwng nifer yr oriau bilio y byddai angen eu gweithio, o’i gymharu â’r nifer y gellid ei ddisgwyl.

Cyfradd defnydd o 100% fyddai cyflogai sy’n gweithio holl oriau eu contract ar waith cymorth cyfreithiol lle codir biliau – nid yw hyn yn realistig am nad yw’n ystyried tasgau gweinyddol, hyfforddiant na gweithgarwch sy’n gysylltiedig â chymorth cyfreithiol lle na cheir tâl (fel cyfarfod cychwynnol â chleient y bernir wedyn sy’n anghymwys i gael cymorth cyfreithiol). Rydym wedi tybio y byddai cyfradd defnydd o 100% yn cyfateb i nifer yr oriau a weithiwyd o dan gontract gwas sifil gyda 33 diwrnod heb weithio’r flwyddyn (i gyfrif am wyliau blynyddol a salwch) ac mai targed rhesymol ar gyfer defnydd gwirioneddol yw rhwng 70% a 80%. I gadarnhau’r dull hwn, nodwn fod Arolwg Meincnodi Ariannol 2024 Cymdeithas y Cyfreithwyr yn awgrymu y dylai rhai nad ydynt yn bartneriaid fod yn anelu at tua 1,200 neu 1,300 o oriau, yn ddibynnol ar y math o waith a phrofiad.[21] Byddai hyn yn 71% i 77% yn ôl ein methodoleg ar gyfer cyfradd defnydd.

**Prif bwyntiau ein hymarferiad meincnodi:**

- Dangosodd ein dadansoddiad o’r data cynaliadwyedd fod cyfartaledd y gyfradd defnydd gyfredol ar gyfer Tai tua 50-60%. Ar gyfradd defnydd o tua 60%, byddai tua 50% o’r cwmnïau a holwyd yn gwneud elw ar ein cyfradd fesul awr arfaethedig o £65-69. Fodd bynnag, yn ôl £47 yr awr, sef y gyfradd bresennol ar gyfer gwaith cymorth cyfreithiol Tai, byddai 60-75% o’r rhai a holwyd yn yr ymchwil cynaliadwyedd yn gwneud colled gan dybio bod pob enillydd ffioedd yn gweithio isafswm o 1,200 o oriau bilio'r flwyddyn (sy’n cyfateb i gyfradd defnydd o 70-80%).
- Ar gyfradd defnydd o 70–80%, pe bai’r cyfraddau’n £60 yr awr, byddai ychydig dros hanner y cwmnïau tai a holwyd yn adennill eu costau o leiaf. Pe bai hyn yn cael ei gynyddu ymhellach i £67 yr awr, byddai hyn yn golygu y byddai tua 60% i 75% o’r cwmnïau a holwyd yn gwneud elw.

## Lefelau ffioedd arfaethedig

Dangosodd ein dadansoddiad fod cyfraddau o dan £60 yn golygu colled i’r rhan fwyaf o’r cwmnïau a holwyd; mae hyn yn cynnwys yr holl Waith Rheoledig a pheth Gwaith Trwyddedig. Y gyfradd bresennol agosaf at £60 yr awr yw cyfradd bresennol y Llys Sirol am gynrychiolaeth sy’n £59.40/£63 yr awr (y tu allan i Lundain/Llundain). Gan gymryd cyfradd y Llys Sirol, rydym wedi ychwanegu 10% yn ychwanegol at y gyfradd hon i wella

[21] The Law Society Financial Benchmarking Survey 2024 (page 22), https://communities.lawsociety.org.uk/law-management-news/the-results-are-in-financial-benchmarking-survey-2024/6002905.article

hyfywedd ariannol gwaith cymorth cyfreithiol sifil, gan godi'r ffioedd dros y gyfradd fesul awr o £60), ond gyda chynnydd pellach i ddenu darparwyr i fanteisio ac i ehangu eu gwaith cymorth cyfreithiol. Mae hyn yn golygu y bydd ein cyfradd fesul awr newydd arfaethedig yn £65.35/£69.30 (y tu allan i Lundain/Llundain). Mae'r gyfradd newydd hon yn nes at y meincnod o £67 a nodwyd yn ein dadansoddiad lle byddai tua 75% o gwmnïau'n gwneud elw. Lle byddai hyn yn golygu cynnydd o lai na 10%, neu fod y gyfradd yn uwch na'r gyfradd fesul awr arfaethedig yn barod, byddai cynnydd o 10% yn cael ei weithredu i sicrhau bod pob darparwr yn cael cynnydd sydd o leiaf y swm hwn.

I gyfrifo'r ffioedd newydd, mae pob cyfradd fesul awr yn cael ei chodi i £65.35/£69.30. Mae'r holl ffioedd sefydlog wedi'u seilio ar gyfradd fesul awr sylfaenol berthnasol o dablau 7 ac 8 yn y rheoliadau (sydd rhwng £45 a £60 yr awr yn gyffredinol). Rydym wedi cyfrifo'r cynnydd canrannol o'r gyfradd fesul awr sylfaenol bresennol i'r gyfradd fesul awr arfaethedig ac yna wedi cymhwyso'r cynnydd canrannol hwn i'r ffioedd sefydlog perthnasol. Lle mae'r ffi sefydlog yn un cenedlaethol, rydym wedi cynyddu cyfradd fesul awr Llundain a'r tu allan i Lundain ac wedi cymhwyso'r cynnydd uchaf.

Mae ffioedd wedi'u talgrynnu i'r bunt agosaf yn achos ffioedd sefydlog, ac i'r pum ceiniog agosaf yn achos cyfraddau fesul awr.

I weld y cynnydd i'r holl gyfraddau Tai a Mewnfudo gweler Atodiad B.

## Cyfyngiadau

### Ymchwil cynaliadwyedd Cymdeithas y Cyfreithwyr

- **Maint a chwmpas y sampl:** Mae'r astudiaeth yn dibynnu ar sampl bychan (gydag ymatebion gan 30 o ddarparwyr Tai, sy'n cynrychioli 13–14% o'r farchnad cymorth Cyfreithiol Tai ar adeg yr ymchwil, a 17 o ddarparwyr Teulu, sy'n cynrychioli 1–2% o'r farchnad cymorth cyfreithiol Tai), gan ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol tai a theulu.
- **Diffyg cynrychiolaeth:** Mae'r sampl tai'n cynnwys sefydliadau nid er elw'n bennaf, er bod y boblogaeth ehangach yn un er elw'n bennaf. O ganlyniad, nid yw'r data'n adlewyrchiad cywir o gyfansoddiad poblogaeth y darparwyr yn gyffredinol. Nid yw'r data'n awgrymu bod gan ddarparwyr er elw gyfradd defnydd uwch na darparwyr nid er elw felly drwy feincnodi'r ffioedd ar gyfwng o gyfraddau defnydd yna rheolir hyn yn rhannol.
- O gofio'r cyfyngiadau hyn, ni ellir cyffredinoli'r canfyddiadau mewn ffordd ddibynadwy ar gyfer y boblogaeth gyfan o ddarparwyr cymorth cyfreithiol heb dybiaethau neu addasiadau ychwanegol sydd wedi'u hymgorffori yn ein dadansoddiad.

**Yr ymarferiad meincnodi**

Mae lefelau proffidioldeb gwirioneddol yn cael eu dylanwadu gan ystod o ffactorau, gan gynnwys:

- Costau gweithredu: Mi all y rhain amrywio'n fawr o gwmni i gwmni yn ôl eu lleoliad, maint, a chostau gorbenion.
- Modelau busnes: Mae gwahanol gwmnïau'n mabwysiadu strategaethau amrywiol sy'n effeithio ar strwythurau cost a ffrydiau refeniw.
- Cymysgedd a nifer yr achosion: Mae cyfradd yr achosion gwerth uchel neu isel, yn ogystal â lefelau cyffredinol y gwaith yn effeithio'n fawr ar broffidioldeb.

Mae'r ymarferiad meincnodi'n defnyddio tybiaethau safonol i amcangyfrif cyfraddau defnydd, costau a refeniw, na fydd o reidrwydd yn adlewyrchu cymhlethdodau gweithrediadau cwmnïau unigol.

# Atodiad B – Cynyddu ffioedd i ffioedd penodol

Mae ffioedd cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer Mewnfudo a Thai i'w cael yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013. Dyma'r tablau y cyfeirir atynt yn yr atodiad hwn.

## Ffioedd Gwaith Rheoledig Mewnfudo a Lloches

**Cyfraddau fesul awr**

| Tabl | Gweithgarwch | Cyfradd bresennol | % Cynnydd | Ffi Newydd |
|---|---|---|---|---|
| 7(a) | Llundain – Paratoi, Presenoldeb ac Eiriolaeth | £52.65 | 32% | £69.30 |
| 7(a) | Y tu Allan i Lundain – Paratoi, Presenoldeb ac Eiriolaeth | £48.24 | 35% | £65.35 |
| 7(a) | Llundain – Teithio ac Amser Aros | £27.81 | 25% | **£34.65*** |
| 7(a) | Y tu Allan i Lundain – Teithio ac Amser Aros | £27.00 | 21% | **£32.70*** |
| 7(a) | Llundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £4.05 | 32% | **£5.35#** |
| 7(a) | Y tu Allan i Lundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.78 | 38% | **£5.20#** |
| 7(d) | Llundain – Paratoi, Presenoldeb ac Eiriolaeth | £51.62 | 34% | £69.30 |
| 7(d) | Y tu Allan i Lundain – Paratoi, Presenoldeb ac Eiriolaeth | £47.30 | 38% | £65.35 |
| 7(d) | Llundain – Teithio ac Amser Aros | £27.27 | 27% | **£34.65*** |
| 7(d) | Y tu Allan i Lundain – Teithio ac Amser Aros | £26.51 | 23% | **£32.70*** |
| 7(d) | Llundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.96 | 35% | **£5.35#** |
| 7(d) | Y tu Allan i Lundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.69 | 41% | **£5.20#** |
| 8(a) | Llundain – Paratoi a Phresenoldeb | £57.83 | 20% | £69.30 |
| 8(a) | Y tu Allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb | £54.09 | 21% | £65.35 |

| **Tabl** | **Gweithgarwch** | **Cyfradd bresennol** | **% Cynnydd** | **Ffi Newydd** |
|---|---|---|---|---|
| 8(a) | Llundain – Teithio ac Amser Aros | £28.62 | 21% | **£34.65*** |
| 8(a) | Y tu Allan i Lundain – Teithio ac Amser Aros | £27.81 | 18% | **£32.70*** |
| 8(a) | Llundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £4.14 | 29% | **£5.35#** |
| 8(a) | Y tu Allan i Lundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.87 | 34% | **£5.20#** |
| 8(a) | Llundain – Eiriolaeth | £65.79 | 10% | £72.35 |
| 8(a) | Y tu allan i Lundain – Eiriolaeth | £65.79 | 10% | £72.35 |
| 8(c) | Llundain – Paratoi a Phresenoldeb | £55.08 | 26% | £69.30 |
| 8(c) | Y tu Allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb | £51.53 | 27% | £65.35 |
| 8(c) | Llundain – Teithio ac Amser Aros | £27.27 | 27% | **£34.65*** |
| 8(c) | Y tu Allan i Lundain – Teithio ac Amser Aros | £26.51 | 23% | **£32.70*** |
| 8(c) | Llundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.96 | 35% | **£5.35#** |
| 8(c) | Y tu Allan i Lundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.69 | 41% | **£5.20#** |
| 8(c) | Llundain – Eiriolaeth | £62.64 | 11% | £69.30 |
| 8(c) | Y tu allan i Lundain – Eiriolaeth | £62.64 | 10% | £68.90 |
| 8(ca) | Llundain – Paratoi a Phresenoldeb | £55.08 | 26% | £69.30 |
| 8(ca) | Y tu Allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb | £51.53 | 27% | £65.35 |
| 8(ca) | Llundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.96 | 35% | **£5.35#** |
| 8(ca) | Y tu Allan i Lundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.69 | 41% | **£5.20#** |

## Ffioedd sefydlog

| Tabl | Gweithgarwch | Ffi Bresennol £ | Cyfradd Sylfaenol Fesul Awr Llundain | Cyfradd Sylfaenol Fesul Awr y tu allan i Lundain | % Cynnydd | Ffi Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4(a) | Lloches - Cam 1 (Help cyfreithiol) | £413 | £52.65 | £48.24 | 35% | £559 |
| 4(a) | Mewnfudo – heblaw lloches - Cam1 (Help cyfreithiol) | £234 | £52.65 | £48.24 | 35% | £317 |
| 4(a) | Lloches - Cam 2a | £227 | £57.83 | £54.09 | 21% | £274 |
| 4(a) | Mewnfudo – heblaw lloches - Cam 2a | £227 | £57.83 | £54.09 | 21% | £274 |
| 4(a) | Lloches - Cam 2b | £567 | £57.83 | £54.09 | 21% | £685 |
| 4(a) | Mewnfudo – heblaw lloches - Cam 2b | £454 | £57.83 | £54.09 | 21% | £549 |
| 4(aa) | Lloches - Cam 2d | £669 | £57.83 | £54.09 | 21% | £808 |
| 4(aa) | Mewnfudo – heblaw lloches - Cam 2d | £628 | £57.83 | £54.09 | 21% | £759 |
| 4(aa) | Lloches - Cam 2e | £1,009 | £57.83 | £54.09 | 21% | £1,219 |
| 4(aa) | Mewnfudo – heblaw lloches - Cam 2e | £855 | £57.83 | £54.09 | 21% | £1,033 |
| 4(b) | Cynrychiolaeth mewn cyfweliad UKVI | £266 | £52.65 | £48.24 | 35% | £360 |
| 4(ba) | Cyngor ar y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol | £150 | £52.65 | £48.24 | 35% | £203 |
| 4(c) | Gwrandawiad Adolygiad Rheoli Achos Llafar | £166 | £65.79 | £65.79 | 10% | £183 |
| 4(c) | Gwrandawiad Adolygiad Rheoli Achos dros y Ffôn | £90 | £65.79 | £65.79 | 10% | £99 |
| 4(c) | Gwrandawiad Terfynol yn Siambr Lloches y Tribiwnlys Haen Gyntaf | £302 | £65.79 | £65.79 | 10% | £332 |

| Tabl | Gweithgarwch | Ffi Bresennol £ | Cyfradd Sylfaenol Fesul Awr Llundain | Cyfradd Sylfaenol Fesul Awr y tu allan i Lundain | % Cynnydd | Ffi Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4(c) | Gwrandawiad Terfynol yn Siambr Mewnfudo’r Tribiwnlys Haen Gyntaf | £237 | £65.79 | £65.79 | 10% | £261 |
| 4(c) | Diwrnod Ychwanegol Gwrandawiad Terfynol – Lloches/Mewnfudo | £161 | £65.79 | £65.79 | 10% | £177 |
| 4(ca) | Gwrandawiad Adolygiad Rheoli Achos Llafar | £166 | £65.79 | £65.79 | 10% | £183 |
| 4(ca) | Gwrandawiad Adolygiad Rheoli Achos dros y Ffôn | £90 | £65.79 | £65.79 | 10% | £99 |
| 4(ca) | Gwrandawiad Terfynol yn Siambr Lloches y Tribiwnlys Haen Gyntaf | £302 | £65.79 | £65.79 | 10% | £332 |
| 4(ca) | Gwrandawiad Terfynol yn Siambr Mewnfudo’r Tribiwnlys Haen Gyntaf | £237 | £65.79 | £65.79 | 10% | £261 |
| 4(ca) | Diwrnod Ychwanegol Gwrandawiad Terfynol – Lloches/Mewnfudo | £161 | £65.79 | £65.79 | 10% | £177 |
| 4(d) | Canolfan Symud Ymaith (IRC) cynghori 5 neu fwy o gleientiaid | £360 | £51.62 | £47.30 | 38% | £497 |
| 4(d) | IRC yn cynghori 4 cleient neu lai | £180 | £51.62 | £47.30 | 38% | £249 |
| 4(d) | Taliad Wrth Gefn IRC (Gwaith Achos Lloches dan Gadwad) | £34.02 | £51.62 | £47.30 | 38% | £47 |

# Ffioedd Gwaith Rheoledig Tai a Dyledion

## Cydraddau fesul awr

| Tabl | Gweithgarwch | Cyfradd bresennol | % Cynnydd | Ffi newydd |
|---|---|---|---|---|
| 7(b) | Llundain – Paratoi, Presenoldeb ac Eiriolaeth | £48.74 | 42% | £69.30 |
| 7(b) | Y tu Allan i Lundain – Paratoi, Presenoldeb ac Eiriolaeth | £45.95 | 42% | £65.35 |
| 7(b) | Llundain – Teithio ac Amser Aros | £25.74 | 35% | **£34.65*** |
| 7(b) | Y tu Allan i Lundain – Teithio ac Amser Aros | £25.74 | 27% | **£32.70*** |
| 7(b) | Llundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.78 | 42% | **£5.35#** |
| 7(b) | Y tu Allan i Lundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.65 | 42% | **£5.20#** |
| 7(c) | Llundain – Paratoi, Presenoldeb ac Eiriolaeth | £56.16 | 23% | £69.30 |
| 7(c) | Y tu Allan i Lundain – Paratoi, Presenoldeb ac Eiriolaeth | £52.56 | 24% | £65.35 |
| 7(c) | Llundain – Teithio ac Amser Aros | £27.81 | 25% | **£34.65*** |
| 7(c) | Y tu Allan i Lundain – Teithio ac Amser Aros | £27.05 | 21% | **£32.70*** |
| 7(c) | Llundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £4.05 | 32% | **£5.35#** |
| 7(c) | Y tu Allan i Lundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.78 | 38% | **£5.20#** |

## Ffioedd sefydlog

| Tabl | Gweithgarwch | Ffi Bresennol £ | Cyfradd sylfaenol fesul awr Llundain | Cyfradd sylfaenol fesul awr y tu allan i Lundain | % Cynnydd | Ffi newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dyledion – Ffi Safonol | £180.00 | £48.74 | £45.95 | 42% | £256.00 |
| 1 | Tai – Ffi Safonol | £157.00 | £48.74 | £45.95 | 42% | £223.00 |
| 6 | Cynllun Dyletswydd Llys Meddiant Tai – Llundain | £75.60 | £48.74 | £45.95 | 43% | £108.00 |

| Tabl | Gweithgarwch | Ffi Bresennol £ | Cyfradd sylfaenol fesul awr Llundain | Cyfradd sylfaenol fesul awr y tu allan i Lundain | % Cynnydd | Ffi newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Cynllun Dyletswydd Llys Meddiant Tai – Y tu Allan i Lundain | £71.55 | £48.74 | £45.95 | 43% | £102.00 |
| 6(a) | Gwasanaeth Cyngor Atal Colli Cartref (HLPAS) – Cam Un: cyngor cyfreithiol cynnar | £157.00 | £48.74 | £45.95 | 42% | £223.00 |
| 6(a) | Gwasanaeth Cyngor Atal Colli Cartref (HLPAS) – Cam Dau: cynllun dyletswydd yn y llys – Llundain | £75.60 | £48.74 | £45.95 | 43% | £108.00 |
| 6(a) | Gwasanaeth Cyngor Atal Colli Cartref (HLPAS) – Cam Dau: cynllun dyletswydd yn y llys – Y tu Allan i Lundain | £71.55 | £48.74 | £45.95 | 43% | £102.00 |

## Ffioedd Gwaith Trwyddedig Mewnfudo a Thai a Dyledion Fees

| Tabl | Gweithgarwch | Cyfradd bresennol | % Cynnydd | Ffi newydd |
|---|---|---|---|---|
| 10(a) | Llysoedd Uwch – Llythyrau Arferol Allan | £6.75 | 10% | **£7.45#** |
| 10(a) | Llysoedd Uwch – Galwadau ffôn arferol | £3.74 | 10% | **£4.10#** |
| 10(a) | Llysoedd Uwch – Llundain – Paratoi a Phresenoldeb | £71.55 | 10% | £78.70 |
| 10(a) | Llysoedd Uwch – Y tu Allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb | £67.50 | 10% | £74.25 |

| Tabl | Gweithgarwch | Cyfradd bresennol | % Cynnydd | Ffi newydd |
|---|---|---|---|---|
| 10(a) | Llysoedd Uwch – Presenoldeb yn y llys neu gynhadledd â'r Cwnsel | £33.30 | 18% | **£39.35*** |
| 10(a) | Llysoedd Uwch – Eiriolaeth | £67.50 | 10% | £74.25 |
| 10(a) | Llysoedd Uwch – Teithio ac Amser Aros | £29.93 | 31% | **£39.35*** |
| 10(a) | Llysoedd Is – Llythyrau Arferol Allan | £5.94 | 10% | **£6.55#** |
| 10(a) | Llysoedd Is – Galwadau ffôn arferol | £3.29 | 11% | **£3.65#** |
| 10(a) | Llysoedd Is – Llundain – Paratoi a Phresenoldeb | £63.00 | 10% | £69.30 |
| 10(a) | Llysoedd Is – Y tu Allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb | £59.40 | 10% | £65.35 |
| 10(a) | Llysoedd Is – Presenoldeb yn y llys neu gynhadledd â'r Cwnsel | £29.25 | 18% | **£34.65*** |
| 10(a) | Llysoedd Is – Eiriolaeth | £59.40 | 10% | £65.35 |
| 10(a) | Llysoedd Is – Teithio ac Amser Aros | £26.28 | 32% | **£34.65*** |
| 10(b) | Llysoedd Uwch – Llythyrau Arferol Allan | £6.66 | 12% | **£7.45#** |
| 10(b) | Llysoedd Uwch – Galwadau ffôn arferol | £3.69 | 11% | **£4.10#** |
| 10(b) | Llysoedd Uwch – Llundain – Paratoi a Phresenoldeb | £70.65 | 10% | £77.70 |
| 10(b) | Llysoedd Uwch – Y tu Allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb | £66.60 | 10% | £73.25 |
| 10(b) | Llysoedd Uwch – Presenoldeb yn y llys neu gynhadledd â'r Cwnsel | £32.76 | 20% | **£39.35*** |
| 10(b) | Llysoedd Uwch – Eiriolaeth | £66.60 | 10% | £73.25 |
| 10(b) | Llysoedd Uwch – Teithio ac Amser Aros | £29.43 | 34% | **£39.35*** |
| 10(b) | Llysoedd Is – Llythyrau Arferol Allan | £5.85 | 12% | **£6.55#** |
| 10(b) | Llysoedd Is – Galwadau ffôn arferol | £3.24 | 13% | **£3.65#** |
| 10(b) | Llysoedd Is – Llundain – Paratoi a Phresenoldeb | £62.10 | 12% | £69.30 |
| 10(b) | Llysoedd Is – Y tu Allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb | £58.50 | 12% | £65.35 |

| Tabl | Gweithgarwch | Cyfradd bresennol | % Cynnydd | Ffi newydd |
|---|---|---|---|---|
| 10(b) | Llysoedd Is – Presenoldeb yn y llys neu gynhadledd â'r Cwnsel | £28.80 | 20% | **£34.65*** |
| 10(b) | Llysoedd Is – Eiriolaeth | £58.50 | 12% | £65.35 |
| 10(b) | Llysoedd Is – Teithio ac Amser Aros | £25.88 | 34% | **£34.65*** |
| 10(c) | Llundain – Paratoi a Phresenoldeb | £55.08 | 26% | £69.30 |
| 10(c) | Y tu Allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb | £51.53 | 27% | £65.35 |
| 10(c) | Llundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.96 | 35% | **£5.35#** |
| 10(c) | Y tu Allan i Lundain – Llythyrau Arferol Allan a Galwadau Ffôn | £3.69 | 41% | **£5.20#** |
| 10(c) | Llundain – Mynychu tribiwnlys neu gynhadledd â'r Cwnsel | £29.30 | 18% | **£34.65*** |
| 10(c) | Y tu Allan i Lundain – Mynychu tribiwnlys neu gynhadledd â'r Cwnsel | £29.30 | 12% | **£32.70*** |
| 10(c) | Llundain – Eiriolaeth | £62.64 | 11% | £69.30 |
| 10(c) | Y tu allan i Lundain – Eiriolaeth | £62.64 | 10% | £68.90 |
| 10(c) | Llundain – Teithio ac Amser Aros | £27.27 | 27% | **£34.65*** |
| 10(c) | Y tu Allan i Lundain – Teithio ac Amser Aros | £26.51 | 23% | **£32.70*** |

## Cyfraddau Atodlen 2

| Tabl | Gweithgarwch | Cyfradd bresennol | Cynnydd | Cyfradd newydd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Llundain – Paratoi a Phresenoldeb yn yr Uchel Lys neu Dribiwnlys Uwch | £71.55 | 10% | £78.70 |
| 1 | Y tu allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb yn yr Uchel Lys neu Dribiwnlys Uwch | £67.50 | 10% | £74.25 |
| 1 | Llundain – Paratoi a Phresenoldeb yn y Llys Sirol | £63.00 | 10% | £69.30 |

| Tabl | Gweithgarwch | Cyfradd bresennol | Cynnydd | Cyfradd newydd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Y tu allan i Lundain – Paratoi a Phresenoldeb yn y Llys Sirol | £59.40 | 10% | £65.35 |
| 1 | Presenoldeb mewn llys neu gynhadledd yn yr Uchel Lys neu Dribiwnlys Uwch | £33.30 | 18% | **£39.35*** |
| 1 | Presenoldeb yn y llys neu gynhadledd yn y Llys Sirol | £29.25 | 18% | **£34.65*** |
| 1 | Eiriolaeth yn yr Uchel Lys neu Dribiwnlys Uwch | £67.50 | 10% | £74.25 |
| 1 | Eiriolaeth yn y Llys Sirol | £59.40 | 10% | £65.35 |
| 1 | Teithio ac aros yn yr Uchel Lys neu Dribiwnlys Uwch | £29.93 | 31% | **£39.35*** |
| 1 | Teithio ac aros yn y Llys Sirol | £26.28 | 32% | **£34.65*** |
| 2 | Arwain cwnsler iau yn y Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys | £112.50 | 10% | £123.75 |
| 2 | Arwain cwnsler iau yn y Llys Apêl | £157.50 | 10% | £173.25 |
| 2 | Cwnsler y Frenhines (lle cymeradwywyd i friffio neu gyfarwyddo gan yr Arglwydd Ganghellor) yn yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl | £180.00 | 10% | £198.00 |
| 2 | Arwain uwch gwnsler yn y Goruchaf Lys | £180.00 | 10% | £198.00 |
| 2 | Cwnsler y Frenhines (lle cymeradwywyd i friffio neu gyfarwyddo gan yr Arglwydd Ganghellor) yn y Goruchaf Lys | £225.00 | 10% | £247.50 |
| 2 | Noter/Disgybl/Ail gwnsler iau wedi'u harwain yn y Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys | £36.00 | 10% | £39.60 |

***- Yn golygu bod yr holl gyfraddau wedi'u cysoni i 50% o'r gyfradd paratoi a phresenoldeb**

**# - Yn golygu bod yr holl gyfraddau wedi'u cysoni'n unol â'r gyfradd uchaf**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud mwy amdanoch eich hun.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl eich swydd** neu ym mha rinwedd ydych chi'n ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ac yn y blaen) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw eich cwmni / sefydliad** (os yn berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech inni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐<br>(ticiwch y blwch) |
| Cyfeiriad y dylid anfon cydnabyddiaeth ato, os yn wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp,** rhowch enw'r grŵp a chrynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

# Sut i ymateb

Galwch ymateb ar-lein yn https://www.gov.uk/government/consultations/civil-legal-aid-towards-a-sustainable-future

Fel arall, anfonwch eich ymateb erbyn 21 Mawrth 2025 i:

**Civil Legal Aid Reform Policy Team**
Ministry of Justice
Eligibility, Civil and Family Legal Aid Policy
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost**: civillegalaidreform@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mi allwch gael rhagor o gopïau o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad uchod ac mae ar gael ar-lein hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/.

Gellir gwneud cais am fersiynau amgen o'r cyhoeddiad hwn drwy anfon e-bost i civillegalaidreform@justice.gov.uk

## Cyhoeddi ymateb

Bydd papur sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2025. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol i roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi'n unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yw'r rhain yn bennaf).

Os ydych am i'r wybodaeth a roddir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch, o dan yr FOIA, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n fuddiol pe baech yn egluro wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth rydych wedi'i rhoi'n gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth mi fyddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd y byddwn yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd a gynhyrchir yn awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymo'r Weinyddiaeth o gwbl.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion yr ymgynghoriad

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu er mwyn ennyn diddordeb rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaethau ar gael yn y ddogfen Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2008, sydd i'w gweld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

E03292092

ISBN 978-1-5286-5434-0